# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **03/12/2024**

**Teitl:** **Strategaeth Iaith Ceredigion 2024-2029**

**Pwrpas yr adroddiad:** **I gymeradwyo Strategaeth Iaith Ceredigion 2024-2029**

**Er:** **Penderfyniad**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Diwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid**

**Cyflwyniad**

Yn unol â Mesur Y Gymraeg (Cymru) 2011 mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg. Mae Safon Hybu (145/146) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddatblygu Strategaeth Iaith, sy'n esbonio sut y bydd ar y cyd gyda sefydliadau partner eraill yn mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal leol.

Bydd y Strategaeth hon yn disodli Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23, a gafodd ei ddatblygu gan Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion.

Un o brif amcanion Fforwm Dyfodol Dwyieithog fydd cydweithio ar draws y Sir i gyflawni gofynion y Strategaeth Iaith 2024-29.

Fe wnaeth Fforwm Dyfodol Dwyieithog gynnal gweithdy yn 2023, er mwyn dechrau ar y gwaith o gynllunio Strategaeth Iaith. Yn dilyn cyfarfodydd dilynol o Fforwm Dyfodol Dwyieithog, cafwyd cytundeb i ymgynghori'n gyhoeddus gyda'r Strategaeth drafft ym mis Gorffennaf ac Awst 2024.

**Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Rhwng 26 Gorffennaf a 31 Awst 2024, ymgynghorodd Cyngor Sir Ceredigion â thrigolion Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Ceredigion 2024-2029 drwy arolwg. Mae llunio strategaeth 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion yn ofyniad statudol dan Safonau'r Gymraeg. Lluniwyd y Strategaeth ar y cyd â nifer o wahanol sefydliadau (e.e. aelodau ar Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion, rhanddeiliaid allweddol a sefydliadau'r trydydd sector).

Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan Strategaeth y Gymraeg 2018-2023 a'r gwaith a wneir gan y Cyngor a'i bartneriaid i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y Sir. Mae sawl gweithred a chanlyniad uchelgeisiol wedi'u nodi yn y Strategaeth er mwyn cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngheredigion. Dyluniwyd yr ymgynghoriad i lywio'r Strategaeth ddrafft, i sicrhau bod barn a sylwadau trigolion yn cael eu hystyried cyn cyhoeddi'r Strategaeth derfynol.

Cwblhawyd yr arolwg ar-lein ac roedd copïau papur ar gael yn holl lyfrgelloedd Ceredigion. Roedd gwahanol fformatau'r arolwg (print bras ac ati) yn hygyrch ar gais.

Hysbyswyd amrywiaeth eang o randdeiliaid o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth drwy e-bost. Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'i rannu ar wefan y Cyngor.

Derbyniwyd cyfanswm o 72 o ymatebion, 48 o holiaduron wedi'u cwblhau yn Saesneg a 24 yn Gymraeg. I ddarllen dadansoddiad llawn o'r ymatebion gweler **Atodiad 1.**

Yn hytrach na chanolbwyntio'n uniongyrchol ar y Strategaeth ei hun, roedd rhai sylwadau yn tueddu i leisio dadleuon mwy cyffredinol e.e gwario cyllid / arian yn rhywle arall, tlodi, digartrefedd, materion casglu sbwriel, diffyg cyfleusterau gofal i'r henoed, cau ysgolion pentref, cynnal a chadw'r prif drefi, gorfodaeth y Strategaeth a pha mor gynhwysol yw'r Strategaeth.

Fodd bynnag, roedd yr ymatebion eraill a dderbyniwyd yn gefnogol i'r nodau a'r camau gweithredu a gyflwynwyd yn y ddogfen ddrafft; a lle bo hynny'n briodol, mae'r sylwadau wedi eu cynnwys fel diwygiadau arfaethedig i'r Strategaeth. At hyn, fe wnaeth Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion drafod y Strategaeth yn eu cyfarfod diwethaf.

Cyflwynwyd y Strategaeth i Bwyllgor Iaith y Cyngor ar y 14eg o Dachwedd, ac at sylw Cabinet y Cyngor ar y 3ydd o Ragfyr.

**Newidiadau i Strategaeth Iaith Ceredigion 2024/29**
Er mwyn hwylustod mae'r holl newidiadau wedi'u uwch oleuo yn y ddogfen Strategaeth Iaith Ceredigion diwygiedig **(Atodiad 2).**

| | Newidiadau yn dilyn y broses ymgynghori cyhoeddus | Tudalen perthnasol |
|---|---|---|
| | **Cyflwyniad** | |
| | **Brawddeg wreiddiol**<br><br>Rydym am sicrhau bod dwyieithrwydd yn cael ei hybu'n gwbl naturiol, a bod yr iaith Gymraeg yn cael ei diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.<br><br>**Brawddeg ddiwygiedig**<br><br>Rydym am sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hybu'n gwbl naturiol, a bod yr iaith Gymraeg yn cael ei diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau. | Tud 5 |
| | **Brawddeg wreiddiol**<br><br>Cymhathu newydd-ddyfodiaid i fod yn rhan naturiol o'r gymuned<br><br>**Brawddeg ddiwygiedig**<br><br>Cefnogi newydd-ddyfodiaid i fod yn rhan o'r gymuned | Tud 12 |

| | | |
|---|---|---|
| | **Teitlau gwreiddiol**<br><br>Dysgu / Byw / Perthyn / Llwyddo<br><br>**Teitlau diwygiedig**<br><br>Learn / Live / Belong / Succeed | Tud 12<br><br>Wedi newid yn y fersiwn Saesneg yn unig |
| | **Nod Strategol 1** | |
| | **Brawddeg wreiddiol**<br><br>Cefnogi CWLWM a'r Uned Gofal Plant i gynnal darpariaeth gofal plant: Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin a Grwpiau Chwarae er mwyn cefnogi rhieni a phlant i ddechrau'r daith o addysg cyfrwng Cymraeg trwy'r dull tro-chi.<br><br>**Brawddeg ddiwygiedig**<br><br>Cefnogi darpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar : Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin a Grwpiau Chwarae er mwyn cefnogi rhieni a phlant i ddechrau'r daith o addysg cyfrwng Cymraeg trwy'r dull trochi. | Tud 17 |
| | **Brawddeg wreiddiol**<br><br>(CWLWM), Uned Gofal Plant, Gwasanaeth Ysgolion<br><br>**Brawddeg ddiwygiedig**<br><br>CWLWM, Uned Gofal Plant, Gwasanaeth Ysgolion, Gwarchodwyr Meithrinfeydd Dydd, Canolfannau Teulu, Gweithwyr Teulu, Grwpiau Rhieni, Clybiau ar ôl ysgol a phlant/Cylchoedd Ti a Fi | Tud 17 |
| | **Brawddeg wreiddiol**<br><br>Cynnal is-grŵp Normaleiddio'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc er mwyn rhoi sylw i'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg. Dadansoddi gwasanaethau a mapio'r ddarpariaeth bresennol er mwyn nodi bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>**Brawddeg ddiwygiedig**<br><br>Cynnal is-grŵp Normaleiddio'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc er mwyn rhoi sylw i'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ac arferion defnydd. Dadansoddi | Tud 18 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwasanaethau a mapio'r ddarpariaeth bresennol er mwyn nodi bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd amrywiol a blaenoriaethu meysydd ar gyfer gwella. | |
| | | **Brawddeg wreiddiol**<br><br>Monitro nifer o'r gweithlu addysg sy'n derbyn hyfforddiant i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau iaith<br><br>**Brawddeg ddiwygiedig**<br><br>Monitro nifer o'r gweithlu addysg sy'n derbyn hyfforddiant i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau iaith; a'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg o ganlyniad | Tud 19 |
| | | **Nod Strategol 3** | |
| | | **Brawddeg wreiddiol**<br><br>Cymhathu newydd ddyfodiaid i fod yn rhan naturiol o'r gymuned.<br><br>**Brawddeg ddiwygiedig**<br><br>Cefnogi newydd ddyfodiaid i fod yn rhan o'r gymuned | Tud 28 |
| | | **Brawddeg wreiddiol**<br><br>Cefnogi gwaith Bro 360, er mwyn marchnata digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol cyfrwng Cymraeg. Annog y cyfleoedd i rannu straeon o bwys yn lleol.<br><br>**Brawddeg ddiwygiedig**<br><br>Cefnogi gwaith Bro 36**0 a phapurau Bro,** er mwyn marchnata digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol cyfrwng Cymraeg. Annog y cyfleoedd i rannu straeon o bwys yn lleol. | Tud 31 |
| | | **Brawddeg wreiddiol**<br><br>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddysgu ac ymarfer yr iaith yn eu cymunedau a'u cefnogi i fod yn rhan naturiol o'r gymuned ddwyieithog<br>**Brawddeg ddiwygiedig**<br><br>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddysgu ac ymarfer yr iaith yn eu cymunedau a'u cefnogi i fod yn rhan o'r gymuned ddwyieithog | Tud 32 |

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>Brawddeg wreiddiol</u>**<br><br>Hyrwyddo mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl i gymryd rhan yng nghynllun mentora 10 awr dros baned—cynllun siarad.<br><br>**<u>Brawddeg ddiwygiedig</u>**<br><br>Hyrwyddo mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl i gymryd rhan yng nghynllun mentora anffurfiol 10 awr — Cynllun 'Siarad.' | Tud 32 |
| | **<u>Brawddeg wreiddiol</u>**<br><br>Cyd-lynu prosiect er mwyn mynd i'r afael â chymhathu mewnfudwyr fel eu bod yn cymryd rhan naturiol mewn cymunedau dwyieithog y Sir, ac yn deall pwysigrwydd defnydd o'r Gymraeg<br><br>**<u>Brawddeg ddiwygiedig</u>**<br><br>Cyd-lynu prosiect er mwyn mynd i'r afael â chymhathu mewnfudwyr fel eu bod yn cymryd rhan mewn cymunedau dwyieithog y Sir, ac yn deall pwysigrwydd defnydd o'r Gymraeg | Tud 32 |
| | **<u>Brawddeg wreiddiol</u>**<br><br>Nifer a % o gyfleoedd Cymraeg mewn prosiectau a rhaglenni celfyddydol, ynghyd â chyfranogiad.<br><br>**<u>Brawddeg ddiwygiedig</u>**<br><br>Nifer o gyfleoedd Cymraeg mewn prosiectau a rhaglenni celfyddydol, ynghyd â chyfranogiad. | Tud 33 |
| | **Nod Strategol 4** | |
| | **<u>Brawddeg wreiddiol</u>**<br><br>Rhannu arfer da ymysg busnesau am fanteision dwyieithrwydd, ynghyd â'r buddiannau ynghlwm wrth gynnig gwasanaeth yn Gymraeg.<br><br>**<u>Brawddeg ddiwygiedig</u>**<br><br>Rhannu arfer da ymysg busnesau a hybu manteision dwyieithrwydd, ynghyd â'r buddiannau ynghlwm wrth gynnig gwasanaeth yn Gymraeg | Tud 38 |

| | | |
|---|---|---|
| | **Brawddeg wreiddiol**<br><br>Gwasanaeth Economi ac Adfywio,  Menter Iaith Cered<br><br>**Brawddeg ddiwygiedig**<br><br>Gwasanaeth Economi ac Adfywio,  Menter Iaith Cered, Prifysgol Aberystwyth | Tud 38 |
| | **Brawddeg wreiddiol**<br><br>Datblygu llwybr gyrfa ar gyfer ôl 16 ar draws gwasanaethau CSC, gan gynnwys cyfleodd o ran profiad gwaith, gwirfoddoli, hyfforddiant a phrentisiaethau sy'n gwneud defnydd o sgiliau iaith Gymraeg.<br><br>**Brawddeg ddiwygiedig**<br><br>Datblygu llwybr gyrfa ar gyfer ôl 16 ar draws gwasanaethau CSC, gan gynnwys cyfleodd o ran profiad gwaith, gwirfoddoli, hyfforddiant a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg. | Tud 38 |
| | **Teitl gwreiddiol**<br><br>Gwasanaeth Rheoli Cyfeiriadau CSC<br><br>**Teitl diwygiedig**<br><br>Gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid a TGCH, CSC | Tud 39 |
| | **Teitl gwreiddiol**<br><br>Gwasanaeth Porth Gofal<br><br>**Teitl diwygiedig**<br><br>Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar | Tud 39 |
| | **Teitl gwreiddiol**<br><br>Gwasanaeth Porth Gofal<br><br>**Teitl diwygiedig**<br><br>Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar | Tud 39 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **<u>Teitl gwreiddiol</u>**<br><br>Gwasanaeth Tai, Gwasanaeth Porth Gofal<br><br>**<u>Teitl diwygiedig</u>**<br><br>Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar | Tud 39 |
| | **<u>Brawddeg wreiddiol</u>**<br><br>Nifer y busnesau sy'n derbyn cyngor ar gynyddu defnydd y Gymraeg mewn busnes drwy'r cynllun ARFOR 2.<br><br>**<u>Brawddeg ddiwygiedig</u>**<br><br>Nifer y busnesau sy'n derbyn cyngor ar gynyddu defnydd y Gymraeg mewn busnes drwy'r cynllun ARFOR 2; a'r nifer sy'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg o ganlyniad. | Tud 40 |
| | **<u>Brawddeg wreiddiol</u>**<br><br>Nifer y cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad at gynlluniau prentisiaethau sy'n gwneud defnydd o sgiliau iaith Gymraeg mewn gweithleoedd ar draws y Sir.<br><br>**<u>Brawddeg ddiwygiedig</u>**<br><br>Nifer y cynlluniau prentisiaethau cyfrwng Cymraeg mewn gweithleoedd ar draws y Sir. | Tud 40 |

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**

Oes- atodiad 3.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor:** Mae'r Strategaeth yma yn gynllun 5 mlynedd 2024-2029 .Y weledigaeth tymor hir yw cyfrannu at Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru sef miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Cydweithio:** Mae'r Cyngor wedi cydweithio gyda sefydliadau partner, sy'n rhan o Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion, er mwyn datblygu ac yna gweithredu'r Strategaeth hon.

**Cynnwys:** Yn ogystal ag ymgynghori gydag aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Gorffennaf a Medi 2024.

**Atal:** Nod y Strategaeth Iaith yw i chynnal ac hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd posib ar fywyd.

**Integreiddio:** Mae'r Iaith Gymraeg yn rhan allweddol o ddiwylliant a threftadaeth Ceredigion, ac felly mae'r polisi yn cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg o fewn y Sir.

**Argymhelliad / Argymhellion:**

**i. Nodi'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus.**
**ii. Cymeradwyo Strategaeth Iaith Gymraeg yn ddibynnol ar y newidiadau sydd wedi'u hamlygu yn y ddogfen derfynol (gweler atodiad 2).**
**iii. Nodi cynnwys yr Asesiad Effaith Integredig (atodiad 3).**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Sicrhau cydymffurfio gyda dyletswydd statudol yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, (Safon 145 a 146) i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion a Phwyllgor Iaith

**Fframwaith Polisi:**
Gofyniad Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u gosod ar y Cyngor

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
I'w benderfynu

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Amherthnasol

**Goblygiadau staffio:**
Amherthnasol

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Amherthnasol

**Risg(iau):**
Amherthnasol

**Pwerau Statudol:**
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Papurau Cefndir:**
Dim

**Atodiadau:**
Atodiad 1: Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cyhoeddus
Atodiad 2: Strategaeth Iaith Ceredigion 2024-2029 wedi ei ddiwygio
Atodiad 3: Asesiad Effaith Integredig

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes

**Swyddog Adrodd:**
Carys Lloyd-Jones, Swyddog Polisi Iaith


**Dyddiad:**
06/11/2024

Atodiad 1

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion 2024 i 2029

## Adroddiad Adborth Ymgynghori




Medi 2024

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# CANLYNIADAU ALLWEDDOL

## 72

ymateb wedi derbyn

(gyda 286 sylwad ysgrifenedig)

## 53%

**yn cytuno** gyda weledigaeth **cyffredinol** y Strategaeth

(47% yn anghytuno)

## 53%

**yn cytuno** gyda'r 4 thema strategol

(47% yn anghytuno)

## 50%

**yn cytuno** gyda'r gweithredoedd o dan **Thema Strategol 1**

(49% yn anghytuno, 1% heb ymateb)

## 53%

**yn cytuno** gyda'r gweithredoedd o dan **Thema Strategol 2**

(47% yn anghytuno)

## 56%

**yn cytuno** gyda'r gweithredoedd o dan **Thema Strategol 3**

(44% yn anghytuno)

## 56%

**yn cytuno** gyda'r gweithredoedd o dan **Thema Strategol 4**

(44% yn anghytuno)

## 51%

**yn cytuno** bod y Strategaeth yn mynd i gael **effaith positif** ar yr Iaith Gymraeg

(49% yn anghytuno)

**Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 26ain o Orffennaf a 31ain o Awst 2024**

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein ar wefan y Cyngor, roedd copïau papur ar gael yn llyfrgelloedd y sir a'i hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cafodd cyfanswm o 72 ymateb i'w derbyn.

Mae'r canlyniadau llawn a'r wybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael ar dudalennau 22 i 26.

# Cefndir

Rhwng 26 Gorffennaf a 31 Awst 2024, ymgynghorodd Cyngor Sir Ceredigion â thrigolion ar ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2024-2029 drwy arolwg. Mae llunio strategaeth 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion yn ofyniad statudol o dan Safonau'r Gymraeg. Lluniwyd y Strategaeth ar y cyd â nifer o wahanol sefydliadau (e.e. aelodau ar Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion, rhanddeiliaid allweddol a sefydliadau'r trydydd sector). Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth o sut y bydd y Cyngor, gan weithio mewn cydweithrediad â sefydliadau partner eraill, yn hybu'r Gymraeg ac yn hwyluso'r defnydd ehangach ohoni yn yr ardal leol:

> *"Rydyn ni eisiau gweld y Gymraeg a Chymreictod yn perthyn i bawb yng Ngheredigion ac yn destun balchder ymhlith holl drigolion y Sir"*.


(Cyngor Sir Ceredigion, Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2024 i 2029, tud. 5).


Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan Strategaeth y Gymraeg 2018-2023 a'r gwaith a wneir gan y Cyngor a'i bartneriaid i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y Sir. Mae'r Strategaeth yn nodi nifer o gamau gweithredu a chanlyniadau uchelgeisiol er mwyn cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngheredigion. Dyluniwyd yr ymgynghoriad i lywio'r Strategaeth ddrafft, i sicrhau bod barn a sylwadau trigolion yn cael eu hystyried cyn cyhoeddi'r Strategaeth derfynol.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ac adborth trigolion ar weledigaeth y Strategaeth a'r pedair thema strategol:

1. Thema Strategol 1 – Dysgu – Prif Ffocws - Plant, Pobl Ifanc a'r Teulu
2. Thema Strategol 2 – Byw- Prif Ffocws - Gwasanaeth a'r Gweithle
3. Thema Strategol 3 – Perthyn - Prif Ffocws - Y Gymuned
4. Thema Strategol 4 – Llwyddo - Prif Ffocws - Y Seilwaith

Roedd yr arolwg ar gael i'w gwblhau ar-lein ac roedd copïau papur ar gael yn holl lyfrgelloedd Ceredigion. Roedd fformatau gwahanol o'r arolwg (print bras ac ati) ar gael ar gais. Hysbyswyd amrywiaeth eang o randdeiliaid o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth drwy e-bost. Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'i rannu ar wefan y Cyngor. Dangosir sampl o'r deunyddiau hyrwyddo isod.




## Cyfradd Ymateb

Cafwyd cyfanswm o 72 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan gynnwys 286 o sylwadau ysgrifenedig ar gyfer y cwestiynau agored 2,4,6,8,10,12,14,15 ac 17. Cyflwynwyd 70 ffurflen ar-lein ynghyd â 2 ffurflen arolwg a anfonwyd trwy CLIC/e-bost. Ar y cyfan, roedd traean (33%/24) wedi'u cwblhau yn Gymraeg a dwy ran o dair (67%/48) wedi'u cwblhau yn Saesneg. Cymerodd ymatebwyr, ar gyfartaledd, 30 munud a 5 eiliad i gwblhau'r arolwg ar-lein.

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau. Mae gwybodaeth am fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u cynnwys tuag at ddiwedd yr adroddiad (tudalennau 22-26).

## Prif Ddarganfyddiadau

### Cwestiwn 1:

Dyma weledigaeth gadarn ar gyfer Strategaeth 2024-2029:

"Cynyddu defnydd o'r iaith ym mhob agwedd o fywyd y Sir. Ein gweledigaeth yw y bydd y Gymraeg a Chymreictod yn perthyn i bob un yng Ngheredigion ac yn destun balchder ymysg holl drigolion y sir."

Yn ogystal, er mwyn gwireddu'r weledigaeth gosodwyd 4 thema strategol - mae Ceredigion yn fan lle mae modd dysgu, byw, perthyn a llwyddo drwy gyfrwng y Gymraeg.


Drwy gyflawni'r gweithredoedd sydd wedi'u hamlygu yn y Strategaeth hon:

- Rydym eisiau gweld pawb o fewn y Sir yn rhoi gwerth a bri i'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.
- Rydym am weld defnydd cynyddol ohoni ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus yn y sir; lle mae modd i drigolion fyw, dysgu, perthyn a llwyddo trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Rydym am sicrhau bod dwyieithrwydd yn cael ei hybu'n gwbl naturiol, a bod yr iaith Gymraeg yn cael ei diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.
- Rydym yn tybio bydd canran y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu 1.5% o 45.3% yn 2021 i 46.8% yn 2029, bydd hyn yn arwain at gynnydd o 612 o siaradwyr Cymraeg oddi ar linell sylfaen 2021. Mae hyn yn golygu erbyn 2029 dylai fod 32,292 o drigolion yn siarad Cymraeg yng Ngheredigion.

## Ydych chi'n cytuno gyda'r weledigaeth gyffredinol a nodir uchod?

Roedd rhaniad o bron 50/50 rhwng y rhai oedd yn ymateb 'ydw' a'r rhai oedd yn ymateb 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn. Gofynnodd y cwestiwn a oedd cyfranogwyr yn cytuno â gweledigaeth gyffredinol y Strategaeth. Atebodd pob un o'r 72 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd ychydig dros hanner (53%) neu 38 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r weledigaeth gyffredinol a nodir yn y strategaeth, tra oedd y 47% yn weddill (34 o ymatebwyr) yn anghytuno.




Gofynnodd yr arolwg hwn gyfres o gwestiynau monitro cydraddoldeb (gellir gweld y canlyniadau'n llawn ar dudalennau 22-26 yn yr adroddiad hwn). Mae hyn yn ein galluogi i gymharu'r arolwg yn ôl nodweddion yr ymatebwyr. Datgelodd y dadansoddiad wahaniaeth bach yng nghanfyddiad yr ymatebwyr o'r weledigaeth yn ôl eu dewis iaith. O'r rhai a gytunodd â gweledigaeth y Strategaeth, dywedodd ychydig dros dair rhan o bump (61% / 23 o ymatebwyr) mai Cymraeg oedd eu dewis iaith, tra dywedodd llai na thraean (29%/11 o ymatebwyr) mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Ni ymatebodd yr 18 ymatebwr arall, neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud (25%).

At hynny, gwelir tuedd debyg wrth gymharu cefnogaeth y weledigaeth yn ôl cenedligrwydd dynodedig ymatebwr. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y mwyafrif o'r rhai a gytunodd â'r weledigaeth yn disgrifio eu hunain fel Cymry/Cymreig (26 ymatebwr). Ar y llaw arall, roedd mwyafrif y rhai a oedd yn anghytuno â'r weledigaeth yn disgrifio eu hunain fel Prydeinwyr (16 ymatebwr). Mae'r uchod yn tynnu sylw at wahaniaeth o ran cefnogaeth i'r weledigaeth yn ôl dewis iaith a hunaniaeth genedlaethol ymatebwr. Gallai hyn awgrymu lefelau amrywiol o ddiddordeb yn hyrwyddo'r Gymraeg (fel y gwelir yng Nghwestiwn 2 isod) a/neu lefelau buddsoddi.

## Cwestiwn 2: Rhowch sylwadau yma.

Roedd cwestiwn 2 yn galluogi cyfranogwyr i roi unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r 'weledigaeth gyffredinol' a nodwyd yng Nghwestiwn 1. Cafwyd cyfanswm o 44 o sylwadau ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn, sef 61% o'r holl ymatebwyr. Roedd y sylwadau hyn yn amrywio'n fawr, gyda rhai themâu'n cael eu hailadrodd yn gyson. Mae'r tabl isod yn nodi'r themâu a'r nifer o weithiau y cawsant eu crybwyll yn y sylwadau. *Roedd y rhai a benderfynodd ateb y cwestiwn hwn yn cynnwys yn bennaf, yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â'r weledigaeth gyffredinol (47% o'r holl ymatebwyr – cyfeiriwch at Gwestiwn 1 uchod). Dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r themâu.*

Y thema fwyaf cyffredin yn y sylwadau hyn oedd *Gwrthwynebiad i'r hyn a ystyrir yn orfodaeth ar ran y Strategaeth / Pryderon ynghylch Cynhwysiant* (13 / 30%). Gallai'r rhain fod yn themâu unigol, ond yn yr achos hwn, maent wedi'u grwpio gyda'i gilydd gan fod llawer o'r sylwadau'n crybwyll y ddau ar yr un pryd. Roedd y sylwadau'n nodi:

- Bod newid ysgolion cyfrwng Saesneg i ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion a lefelau ALTE ar gyfer swyddi yng Ceredigion yn enghreifftiau o orfodi'r Gymraeg ar bobl.
- Dylid trin y ddwy iaith yn gyfartal, a dylid dysgu'r Saesneg cymaint â'r Gymraeg, yn enwedig os yw dysgwyr yn bwriadu dilyn gyrfaoedd neu addysg bellach y tu allan i Gymru.
- Canfyddiad bod gormod o bwyslais ar yr iaith Gymraeg sy'n gyrru pobl allan o'r Sir. Mae rhai o'r sylwadau hyn wedi dod gan bobl sy'n teimlo eu bod nhw eu hunain yn cael eu gwthio allan o'r Sir.

Yr ail thema fwyaf cyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r sylwadau ysgrifenedig hyn oedd *Dylai cyllid/ arian gael ei wario mewn mannau eraill* (10 o sylwadau neu 22% o'r holl sylwadau ysgrifenedig). Nodwyd sawl gwaith na ddylai fod cymaint o bwyslais nac arian yn cael ei wario ar y Strategaeth hon a'r iaith Gymraeg, o ystyried nifer yr heriau sy'n cael effaith negyddol ar breswylwyr. Mae rhai o'r pryderon eraill a nodwyd sy'n cael eu hystyried i fod yn fwy pwysig yn cynnwys y canlynol:

- Tlodi
- Digartrefedd
- Problemau casglu sbwriel
- Prinder cyfleusterau gofal i'r henoed
- Cau ysgolion pentref
- Cynnal a chadw'r trefi mawr

Roedd tua 5 sylw (11%) yn fwy cadarnhaol tuag at weledigaeth gyffredinol y Strategaeth. Nododd un sylw eu bod yn hoffi'r "bwriad i sicrhau cynhwysiant" ac roeddent yn teimlo bod ffocws y weledigaeth yn glir ac yn gyflawn. Nododd 4 ymatebwr arall eu bod yn *cytuno â'r weledigaeth i ryw raddau ond roeddent wedi ychwanegu sylwadau pellach*; er enghraifft, roedd gan gwpl o'r ymatebwyr bryderon ynghylch sut y cyrhaeddir y nifer a dargedir o siaradwyr Cymraeg.

| Thema | Nifer yr achlysuron a'i grybwyllwyd |
|---|---|
| Gwrthwynebu'r hyn a ystyrir yn orfodaeth ar ran y Strategaeth / Pryderon ynghylch Cynwysoldeb | 13 |
| Dylai cyllid/arian gael ei wario mewn mannau eraill | 10 |

| | |
|---|---|
| Yn cytuno â'r weledigaeth gyffredinol | 5 |
| Cytundeb â'r weledigaeth gyffredinol gyda sylwadau ychwanegol | 4 |

Dangosir sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y tabl isod.

| Sylwadau Sampl | |
|---|---|
| "Yr hyn rwy'n anghytuno'n gryf ag ef, yw sut mae'r Gymraeg yn cael ei gorfodi ar bobl. Efallai y byddwch yn twyllo'ch hunain ac yn galw hwn yn 'gyfle', ond yn y bôn rydych chi'n gorfodi plant, pobl ifanc a phobl (sy'n gweithio ym maes addysg, er enghraifft) i siarad Cymraeg."<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | "Nid yw'r ymgynghoriad yn darparu gwybodaeth am gost y gweithredu. Ar adeg pan fo gwasanaethau'n cael eu torri, nid wyf yn credu y gall y Cyngor fforddio'r Strategaeth Iaith hon."<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |
| "Rwy'n deall y polisi hwn ond yn y sefyllfa bresennol rwy'n teimlo y byddai'n well gwario'r gyllideb ar y rhai sy'n byw mewn tlodi a/neu sydd angen gofal."<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | "Ffocws clir a chyraeddadwy" |
| "Mae fy mhryderon yn ymwneud â'r posibilrwydd y bydd Cymru o dan anfantais drwy beidio â gallu sicrhau'r dalent orau. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar wasanaethau dwyieithog."<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | "Rwy'n cytuno â'r weledigaeth ond mae gen i bryderon."<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |


### Cwestiwn 3:

Er mwyn cyfrannu tuag at y weledigaeth mae Strategaeth Iaith Ceredigion wedi adnabod pedwar thema strategol. Mae'r themâu strategol hyn wedi'u llunio fel eu bod yn cydgordio gyda meysydd strategol Llywodraeth Cymru yn Strategaeth y Gymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr Cymraeg. Hyn er mwyn sicrhau rhaeadru strategol o'r lefel uchaf i'r lefel lleol.

Thema Strategol 1 – Dysgu – Prif Ffocws - Plant, Pobl Ifanc a'r Teulu
Thema Strategol 2 – Byw- Prif Ffocws - Gwasanaeth a'r Gweithle
Thema Strategol 3 – Perthyn - Prif Ffocws - Y Gymuned
Thema Strategol 4 – Llwyddo - Prif Ffocws - Y Seilwaith

### Ydych chi'n cytuno gyda'r 4 thema strategol uchod?

Roedd cwestiwn 3 yn gwestiwn caeëdig a ofynnodd i ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r 4 thema strategol a gynhwysir yn Strategaeth yr iaith Gymraeg. Atebodd pob un o'r 72 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Yn debyg i Gwestiwn 1, roedd rhaniad bron 50/50 rhwng y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno. Dywedodd ychydig dros hanner (53% neu 38 o ymatebwyr) eu bod yn cytuno â'r 4 thema strategol sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth tra bod y 47% sy'n weddill (34 o ymatebwyr) yn anghytuno.




Mae tuedd amlwg rhwng y dewis iaith a'r ymateb i'r cwestiwn hwn. O'r 38 o ymatebwyr a gytunodd â'r 4 thema strategol, dywedodd 61% (23 o ymatebwyr) mai Cymraeg oedd eu dewis iaith a dim ond 26% (10 o ymatebwyr) a ddywedodd mai Saesneg oedd eu dewis iaith. O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r 4 thema strategol, dywedodd 59% (20 o ymatebwyr) mai Saesneg oedd eu dewis iaith, a dim ond 1 ymatebwr (3%) a ddywedodd mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith. Ni ymatebodd yr 18 o ymatebwyr sy'n weddill y cwestiwn hwn neu roedd yn well ganddynt beidio â dweud (25%). Mae thema amlwg yn codi dro ar ôl tro, sef bod y rhai sy'n ffafrio'r iaith Gymraeg fel eu dewis iaith yn tueddu i gytuno'n fwy â'r Strategaeth o'i gymharu â'r rhai sy'n ffafrio'r Saesneg fel eu dewis iaith.

## Cwestiwn 4: Rhowch sylwadau yma.

Roedd Cwestiwn 4 yn gwestiwn arall a ofynnodd am unrhyw sylwadau mewn perthynas â Chwestiwn 3. Cafwyd 36 o ymateb i'r cwestiwn hwn, sef tua 50% o'r holl ymatebwyr. Yn debyg i Gwestiwn 2, roedd ystod eang o ymatebion testun rhydd i'r cwestiwn hwn. Ceir dadansoddiad o brif themâu'r ymatebion hyn isod.

Dywedodd tua 11 o ymatebwyr (30%) eu bod yn cytuno ar y cyfan â'r 4 Thema Strategol *(Cytuno â 4 Thema Strategol)* a nodir yn strategaeth Iaith Gymraeg Ceredigion. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y themâu yn ffocws synhwyrol a'u bod yn cyd-fynd â strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd sylwadau'n cytuno â'r themâu ond nodwyd ei bod yn dda canolbwyntio ar feysydd eraill ar wahân i addysg.

Cyfeiriodd tua 10 o ymatebwyr eraill (27%) at y ffaith bod gormod o bwyslais ar ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg *(Gwrthwynebu'r hyn a ystyrir yn orfodaeth ar ran y Strategaeth)*. Nododd yr ymatebwyr y dylai trigolion Ceredigion gael y dewis i ddysgu, byw a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg a'u bod yn debyg i'r themâu a ymddangosodd yng Nghwestiwn 2. Unwaith eto, cafwyd sylwadau pellach ynghylch system addysg Ceredigion a'r farn y dylai plant allu dewis ym mha iaith y maent yn dysgu ynddi.

Roedd gweddill y sylwadau yn amrywiol iawn ond yn cynnwys ymatebwyr yn  anghytuno â'r 4 prif thema a nodi y gellid gwario arian *mewn mannau eraill (Dylai cyllid/arian gael ei wario mewn mannau eraill)*. Yn ogystal, dywedodd un ymatebwr fod angen cynnwys mwy ar ddysgwyr Cymraeg, tra bod ymatebwr arall yn meddwl i'r gwrthwyneb gan ddweud y dylai'r themâu hyn hefyd ystyried siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae nifer o ymatebwyr hefyd, sydd â phryderon ynghylch pobl ddi-gymraeg yn cael eu gwthio allan o'r Sir am na allant neu na fyddant yn cael eu cyflogi, mae'r pryderon a nodwyd yn cynnwys colli sgiliau ac nad yw gweithwyr cymwys yn cael eu cyflogi am nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg.

| Thema | Nifer yr achlysuron a'i grybwyllwyd |
|---|---|
| Cytuno â'r 4 thema strategol | 11 |
| Gwrthwynebu'r hyn a ystyrir yn orfodaeth ar ran y Strategaeth | 10 |
| Dylai cyllid/arian gael ei wario mewn mannau eraill | 3 |
| Arall | 12 |

Gweler sylwadau sampl yn ymwneud â Chwestiwn 4 yn y tabl isod:

| Sylwadau Sampl | |
|---|---|
| Mae'r themâu'n rhai cyffrous ac yn addas iawn. | "Mae gormod o bwyslais ar orfodi'r Gymraeg fel rhywbeth y mae'n rhaid ei wneud –dylai fyw yn gytûn ochr yn ochr â'r Saesneg".<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |
| "Rwy'n credu y dylid dysgu Cymraeg yn orfodol tan 11 oed (blwyddyn olaf ysgol gynradd).  Ar ôl hynny, dylai plant a rhieni allu penderfynu drostynt eu hunain pa iaith y maent am barhau â hi yn eu blynyddoedd ysgol uwchradd.<br><br>Dylai swyddogion mewn gweithleoedd gyfathrebu yn yr iaith y maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus ynddi, ond dylid blaenoriaethu lefel safonol o Saesneg ym mhob rôl fel mamiaith y DU (a'r byd).<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | Rydych wedi rhoi'r gorau i gyflogi athrawon di-gymraeg gan arwain at lawer o athrawon da yn gadael y sir.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |
| Cytunwn ynghylch pwysigrwydd alinio themâu strategol y strategaeth hon â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. | Yn gwbl ddiangen. Gwastraff arian cyhoeddus<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |

## Cwestiwn 5:

## Thema  Strategol 1 – Dysgu – Prif Ffocws - Plant, Pobl Ifanc a'r Teulu

<u>Camau gweithredu:</u>


1. Codi ymwybyddiaeth ymysg rhieni ynghylch manteision trosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd.
2. Cynyddu'r cyfleoedd gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Cefnogi amcanion  CSGA, er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.
4. Sicrhau bod gallu yn y Gymraeg yn cael ei werthfawrogi fel sgil gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a'r

byd gwaith ymysg myfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch.
5. Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr sydd a chyswllt a phlant a phobl ifanc o'r angen i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg.(cysylltiad a Thema 3: Perthyn ac yn cefnogi Deilliant 5 CSGA).

*I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut byddwn yn mynd i'r afael â hyn ewch i dudalennau 17-18 o'r Strategaeth.*

### Ydych chi'n cytuno gyda'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu uchod?

Gofynnodd cwestiwn 5 i'r ymatebwyr ddarllen trwy'r camau a amlinellir yn Thema Strategol 1 y Strategaeth, gyda'r prif ffocws yma ar ddysgu. Unwaith eto, roedd bron i raniad cyfartal rhwng y rhai sy'n cytuno â'r camau gweithredu (50%/36 o ymatebwyr) a'r rhai sy'n anghytuno (49% / 35 o ymatebwyr). Roedd hefyd 1 cyfranogwr nad oedd wedi ymateb i'r cwestiwn hwn (1%/1 ymatebwr).




### Cwestiwn 6: Ar ôl i chi ystyried y wybodaeth ar dudalennau 17-18, a oes unrhyw gyfleoedd eraill y dylem fod yn rhoi sylw penodol iddynt?

Roedd cwestiwn 6 yn caniatáu ymatebwyr i wneud sylwadau ar unrhyw gyfleoedd eraill y dylai'r Strategaeth roi sylw iddynt. Roedd hwn yn gwestiwn blwch testun a chafwyd 34 ymateb (46% o'r holl ymatebwyr). Cyflwynwyd amrywiaeth o awgrymiadau gan yr ymatebwyr gan ei wneud yn anodd grwpio'r ymatebion i themâu penodol. Amlinellir y blwch isod y ddwy thema allweddol a'r nifer o weithiau yr awgrymwyd y sylwadau hyn, ond dengys y dadansoddiad isod a'r sylwadau sampl amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd.

| Thema | Nifer yr awgrymiadau |
|---|---|
| Gwrthwynebu'r hyn a ystyrir yn orfodaeth ar ran y Strategaeth | 5 |
| Dylai cyllid/arian gael ei wario mewn mannau eraill | 3 |

Nid oedd y mwyafrif y sylwadau yn ateb cwestiwn 6 yn benodol ond yn hytrach fe ddefnyddiwyd y cyfle hwn i fynegi pryderon am y Strategaeth/ hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg. Nodwyd mewn nifer o'r sylwadau y dylai trigolion Ceredigion allu dewis rhwng addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu y dylai addysg fod yn ddwyieithog, sy'n debyg i'r sylwadau blaenorol. Mae'n eglur bod yr ymatebwyr hyn yn pryderu fod addysg uniaith Gymraeg yn cyfyngu plant yn ddiweddarach yn eu

bywydau, a dylai plant/rhieni/gwarchodwyr gael y cyfle i ddewis ym mha iaith y maent yn derbyn eu haddysg. Mae'r sylwadau hyn wedi'u grwpio o dan y thema *Gwrthwynebu'r hyn a ystyrir yn orfodaeth ar ran y Strategaeth*.

Mae ystod eang o sylwadau pellach wrth ymatebwyr ond nid oes themâu clir i'w cysylltu. Sylwadau megis:

- Cynyddu poblogrwydd defnyddio'r Gymraeg i bobl ifanc ac oedolion ifanc. Gan gynnig defnyddio arolwg i ganfod lle y defnyddir yr iaith Gymraeg er mwyn hysbysu ardaloedd targed.
- Arsylwad nad yw plant a phobl ifanc yn defnyddio cymaint o'r Gymraeg gan ddisgrifio'r Saesneg fel iaith y 'cae chwarae'.
- Awgrym i wella cyfleusterau i oedolion ddysgu'r iaith Gymraeg.
- Cynyddu darpariaeth y cyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir.
- Pwysigrwydd cefnogi teuluoedd di-Gymraeg o fewn y Sir.
- Yr angen i gynnwys babanod 0-3 oed o fewn y Strategaeth.

Gweler sylwadau sampl yn ymwneud â'r ymateb i'r cwestiwn yn y tabl isod:

| Sylwadau Sampl | |
|---|---|
| Her allweddol yw gwneud y Gymraeg yn ddeniadol / ffasiynol i bobl ifanc. Beth gellir ei wneud i wneud y Gymraeg yn 'cŵl' er mwyn i blant 14-16 mlwydd oed eisiau siarad yr iaith?<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | Mae 'dysgu' yn dechrau o geni - felly rhaid cynnwys oedran 0-3 mewn unrhyw penderfyniadau. Mae'n bwysig bod Canolfannau Teulu, Gweithwyr Teulu, Grwpiau Rhieni a plant/Cylchoedd Ti a Fi yn hybu cyfleoedd yn y Gymraeg a bod gwerth I'r Gymraeg yn ogystal. Sicrhau bod pobl ifanc ddim yn colli eu hyder yn yr iaith Gymraeg yn yr ysgol Uwchradd (11-16) (mae'r oedran yma ddim yn rhan wedi'i adnabod yn y cynllun??) |
| Anogaeth yn hytrach na gorfodaeth.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | Eto, mae'r polisi DIM DEWIS o orfodi plant yn y blynyddoedd cynnar i dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn anghywir! Yn hytrach na chefnogi ac annog mae'n cael ei ddefnyddio fel polisi heb ddewis.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |
| Dylwn ni fod yn siarad yn ddwyieithog ac nid y Gymraeg yn unig yn benodol. Mae'r Saesneg yr un mor bwysig os nad yn bwysicach yn fyd-eang.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | Hyfforddiant am ddim ar-lein sy'n gysylltiedig a'r gwaith a chredyd amser o'r gwaith i ddysgu'r Gymraeg.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |

## Cwestiwn 7:

## Thema Strategol 2 – Byw- Prif Ffocws - Gwasanaeth a'r Gweithle

Camau Gweithredu:


6. Sicrhau bod egwyddorion Safonau'r Gymraeg yn sail i'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau i'r cyhoedd, fel bod defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael gafael ar wasanaethau yn eu dewis iaith yn ddi-rwystr.
7. Datblygu ymgyrchoedd i sicrhau bod trigolion Ceredigion yn deall bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor.
8. Gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y Cyngor, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i staff weithio yn Gymraeg a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
9. Cynyddu cydnabyddiaeth bod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr yn y gweithle.
10. Ystod eang o ddosbarthiadau Cymraeg ar gael i staff y Cyngor a sefydliadau partner.

*I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut byddwn yn mynd i'r afael â hyn ewch i dudalennau 24-25 o'r Strategaeth.*

### Ydych chi'n cytuno gyda'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu uchod ?

Cytunodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (53%) gyda'r camau gweithredu a amlinellwyd dan Thema 2 o Strategaeth yr Iaith Gymraeg. Anghytunodd yr ymatebwyr oedd yn weddill (47%). Roedd hwn yn gwestiwn caeëdig a oedd ond yn galluogi ymatebwyr i ddewis rhwng dau ateb. Er hyn, roedd cyfle hefyd i ddarparu ymatebion pellach yn y cwestiwn nesaf.

**Q7. Ydych chi'n cytuno gyda'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu uchod ?**




### Cwestiwn 8: Ar ôl i chi ystyried y wybodaeth ar dudalennau 24-25, a oes unrhyw gyfleoedd eraill dylem fod yn rhoi sylw penodol iddynt?

Roedd cwestiwn 8 yn gwestiwn pen-agored a oedd yn galluogi ymatebwyr i roi sylwadau pellach ar unrhyw gyfleoedd eraill y dylai'r Strategaeth roi sylw iddynt. Mae llawer o'r wybodaeth ar dudalennau 24-25 yn ymwneud â'r gweithlu a sut y gellir gwella'r Gymraeg yn fewnol o fewn y Cyngor. Cafwyd 32 o ymatebion i'r cwestiwn hwn sy'n ganran o 44% o'r holl ymatebwyr. Eto, roedd ystod eang o sylwadau ac awgrymiadau amrywiol.

| Thema | Nifer yr achlysuron a'i grybwyllwyd |
|---|---:|
| Dylai cyllid/arian gael ei wario mewn mannau eraill | 5 |
| Cynyddu hyder staff | 3 |
| Gwrthwynebu'r hyn a ystyrir yn orfodaeth ar ran y Strategaeth | 6 |

Eto, mynegwyd pryderon gan yr ymatebwyr ynghylch ariannu'r prosiect hwn a sut y gellir defnyddio'r arian o fewn gwasanaethau'r Cyngor megis i lenwi tyllau yn yr heolydd a gwella'r gwasanaeth casglu gwastraff.

Mae nifer o sylwadau (tua 5) yn crybwyll cynyddu ddarpariaeth o gyfleoedd i ddysgu’r Gymraeg i staff ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae sylwadau sy’n berthnasol i hyn hefyd yn crybwyll cynyddu hyder staff i ddefnyddio’r iaith gan ddarparu mwy o gyfleoedd yn fewnol i staff dderbyn cymorth gyda’r iaith Gymraeg.

Mae thema arall sy’n cael ei ailadrodd yn nodi bod nifer o’r camau gweithredu sydd wedi’u hamlinellu yn targedu siaradwyr Cymraeg yn unig gan hepgor staff di-Gymraeg. Yn ogystal, nodwyd sawl gwaith y dylai pobl gael eu cyflogi gan y cyngor am eu sgiliau/cymwysterau ac nid oherwydd eu gallu i siarad y Gymraeg. Nododd ymatebwyr gyda’r farn hon hefyd fod cael mynediad i’r gweithle yn anoddach i bobl dalentog nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Eto, yn debyg i’r thema ailadroddus sy’n nodi na ddylai’r Gymraeg gael ei gorfodi ar bobl Ceredigion ac y dylai staff yn benodol gael dewis pa iaith y maent yn dymuno cyfathrebu drwyddo, tra bod eraill yn nodi bod dwyieithrwydd yn bwysig, maent yn nodi y dylai fod yn ddewis. Ar y llaw arall, noder mewn sawl sylwad arall nad oes digon o’r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle ac y dylai pob gweithiwr ddysgu’r Gymraeg a’r Cyngor i sicrhau bod hyn yn cael ei fonitro.

Gweler sylwadau sampl yn ymwneud â Chwestiwn 8 yn y tabl isod:

| Sylwadau Sampl | |
|---|---|
| Sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod oriau gwaith.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | Nid yw gwneud y gweithle yn llai hygyrch i dalent trwy hyrwyddo iaith nad yw llawer yn ei siarad yn syniad gwych.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |
| Ond dim sôn am ddarparu hyfforddiant, cymorth a chyrsiau AM DDIM i ddarparu'r sgiliau iaith i bobl ddi-Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg fel hyn. Unwaith eto, wedi'u targedu'n sylfaenol at siaradwyr Cymraeg presennol yn hytrach na chreu rhai newydd fel y byddech chi'n ei ddisgwyl pe baech chi EISIAU cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae hefyd yn teimlo bod pobl ddi-Gymraeg yn cael eu heithrio o gyfleoedd gwaith a bron yn teimlo fel hiliaeth weithredol mewn rhai sefyllfaoedd!<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | Dylai staff gyfathrebu yn yr iaith y maent fwyaf cyfforddus ynddi. Mae gwthio'r Gymraeg yn orfodol yn rhai rolau yn fy marn i yn achosi gwahaniaethu.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |
| Mae angen dirfawr i adfywio canol tref Aberystwyth. Mae'r buddsoddiad hwn yn yr iaith yn ymddangos yn wastraff pan fo popeth mewn cyflwr mor ddolurus.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | Unwaith eto, cynnig cyrsiau Cymraeg yn y gweithle wyneb yn wyneb yn ogystal ag ar-lein. Hyfforddi technegau staff sy'n siarad Cymraeg i fentora/cefnogi dysgwyr yn y gweithle, peidiwch â chymryd yn ganiataol eu bod yn gwybod sut i'w wneud yn effeithiol - yn enwedig rheolwyr. Gweithredol.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |

## Cwestiwn 9:

## Thema Strategol 3 – Perthyn - Prif Ffocws - Y Gymuned


Camau Gweithredu:

11. Sicrhau ymwybyddiaeth eang trigolion Ceredigion o holl gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol sydd ar gael o fewn y Sir.
12. Cynnal statws a bri'r Gymraeg o fewn cymunedau Ceredigion, gan hyrwyddo ei gwerth a'r defnydd ohoni.
13. Cynyddu cyfleoedd i bobl ddysgu ac ymarfer yr iaith yn eu cymunedau a'u cefnogi i fod yn rhan naturiol o'r gymuned ddwyieithog.
14. Cydlynu prosiect er mwyn mynd i'r afael â chymhathu mewnfudwyr fel eu bod yn cymryd rhan naturiol mewn cymunedau dwyieithog y Sir, ac yn deall pwysigrwydd defnydd o'r Gymraeg.
15. Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd cynyddol i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg.

*I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut byddwn yn mynd i'r afael â hyn ewch i dudalennau 31-32 o'r Strategaeth.*

### Ydych chi'n cytuno gyda'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu uchod ?

Atebodd bob un o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn a oedd yn gofyn a oeddent yn cytuno gyda'r camau gweithredu a amlinellwyd o dan y thema 'Perthyn'. Dengys ganlyniadau'r cwestiwn hwn bod ychydig mwy o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu uchod (56% / 40 o ymatebwyr) a llai o'r ymatebwyr yn anghytuno (44% / 32 o ymatebwyr). Mae hyn yn wahanol i rai o'r canlyniadau eraill yr ydym wedi'u gweld hyd yma lle mae rhif ychydig yn fwyd hafal wedi'u nodi ar gyfer pob un o'r ymatebion.




### Cwestiwn 10: Ar ôl i chi ystyried y wybodaeth ar dudalennau 31-32, a oes unrhyw gyfleoedd eraill y dylem fod yn rhoi sylw penodol iddynt?

Roedd 29 o ymatebion (cyfanswm o 40% o gyfanswm yr ymatebwyr) i'r cwestiwn pen-agored hwn. Amlinellir y tabl isod rai o'r prif themâu a welwyd yn yr ymatebion. Fel nifer o'r sylwadau trwy gydol yr arolwg hwn, cafwyd ystod eang o ymatebion.

| Theme | Nifer yr achlysuron a'i grybwyllwyd |
|---|---:|
| Dylai cyllid/arian gael ei wario mewn mannau eraill | 7 |
| Cynwysoldeb | 7 |
| Gwrthwynebu'r hyn a ystyrir yn orfodaeth ar ran y Strategaeth | 5 |

Thema sy'n cael ei hailadrodd yn gyson yn yr ymatebion ysgrifenedig i'r arolwg hwn yw *pryderon cyllid*. Yn yr ymatebion agored i'r cwestiwn hwn mae tua 5 sylwad sy'n crybwyll arian neu gyllid. Noda tua 3 o'r ymatebwyr hyn y dylai Ceredigion ddefnyddio a hyrwyddo'r hyn sydd eisoes ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyntaf cyn gwario mwy o arian. Mae gan hanner arall y sylwadau hyn (tua 2) duedd fwy negyddol sy'n mynegi pryderon bod arian yn cael ei wastraffu a dylid gwario mewn meysydd eraill.

Mae *Cynnwys* yn thema arall sy'n ymddangos yn yr atebion ysgrifenedig i gwestiwn 10. Mae sylwadau'n amrywio o nodi y dylai dysgwyr Cymraeg gael yr hawl i wneud camgymeriadau, i awgrymiadau y dylai mudiadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg gyd-weithio wrth baratoi at ŵyl, diwrnod agored ac ati. Yn ychwanegol at hyn, mae'r thema ynghylch *cynnwys* yn cynnwys sylwadau ynghylch lleoliadau daearyddol ac y dylai pob ardal yng Ngheredigion cael eu cynnwys o fewn y Strategaeth.

Pynciau eraill a gafodd eu crybwyll yn llai aml ac nad oeddent yn perthyn i unrhyw un o'r themâu uchod oedd: yr angen i grantiau sy'n cael eu rhoi gan y Cyngor fod yn amodol bod y mudiadau sy'n eu derbyn yn defnyddio rhywfaint o'r Gymraeg, gwrthwynebiad i'r teimlad o orfodaeth sydd gan y Strategaeth neu'r angen i ddiwygio ychydig o'r geirio o fewn y strategaeth gan ei fod yn tueddu i edrych yn negyddol ar yr iaith Saesneg.

Gweler sylwadau sampl yn ymwneud â Chwestiwn 10 yn y tabl isod:

| Sylwadau Sampl | |
|---|---|
| Angen hyrwyddo mwy o beth sydd ar gael yn y Sir yn barod cyn gwario rhagor o arian. | Oes ond efallai bod angen ail-eirio rhai brawddegau fel nad ydyn nhw'n swnio'n ymosodol. E.e. newydd-ddyfodiaid i integreiddio i ddod yn rhan naturiol o'r gymuned. Nid yw cymhathu yn swnio'n wych wrth sôn am newydd-ddyfodiaid neu fewnfudwyr (nid o reidrwydd yr un peth ag y gallai newydd-ddyfodiaid fod yn Gymry o deulu Cymraeg di-siarad)<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |
| Mae'n teimlo fel pe na bai wardiau mwy y Sir, er enghraifft Penparcau wedi'u cynnwys ac mae'n ymddangos bod hyn yn darged amlwg i'w gyrraedd. Yn enwedig gyda'r Hwb, a'r ysgol fawr. Onid oes poblogaeth fwy na Thregaron, Aberteifi, Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan. Mae'n ymddangos y gellid defnyddio'r Hwb fel sylfaen Gymraeg, amlwg mewn gwirionedd. Does dim pwynt gwneud pethau mewn ardaloedd lle nad oes llawer o bobl neu ddim ymdeimlad o gymuned fel canol tref Aber.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | Caniatáu i bobl siarad Cymraeg yn naturiol. Os yw pobl eisiau siarad Cymraeg, mae digon o gyfle eisoes i wneud hynny. Nid oes angen gweithredu pellach a byddai'n wastraff arian ac adnoddau.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |
| Dylai cyfleoedd fod yn y ddwy iaith nid yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>**Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | Mae nifer o'r Camau Gweithredu yn ymwneud â chyrff a mudiadau Cymraeg ond mae angen estyn allan i sicrhau bod digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu trefnu yn digwydd trwy'r Gymraeg. |

## Cwestiwn 11:

Thema Strategol 4 – Llwyddo - Prif Ffocws - Y Seilwaith

Camau Gweithredu:


16. Sicrhau bod holl benderfyniadau polisi y Cyngor yn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg (effeithiau cadarnhaol ac effeithiau negyddol)

17. Cefnogi Strategaeth Economi Ceredigion i sicrhau gweledigaeth amlwg i'r Gymraeg mewn unrhyw gynlluniau
18. Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol i alluogi mwy o bobl ifanc i adeiladau cartref am oes.
19. Cynyddu argaeledd tai fforddiadwy fel bod pobl yn medru aros yn eu cynefin a pharhau i gyfrannu at fywiogrwydd yr iaith Gymraeg.
20. Sicrhau bod y Cyngor ynghyd â sefydliadau partner yn chwarae eu rhan i sicrhau bod yr iaith wrth wraidd arloesedd technolegol i alluogi'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.

*I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut byddwn yn mynd i'r afael â hyn ewch i dudalennau 38-39 o'r Strategaeth.*

### Ydych chi'n cytuno gyda'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu uchod ?

Atebodd pob un o'r 72 o ymatebwyr gwestiwn 11 a ofynnodd i'r cyfranogwyr a oeddent yn cytuno â'r camau a nodwyd o dan *Thema Strategol 4 – Llwyddiant – Prif Ffocws – Seilwaith*. Roedd y camau hyn yn amrywio o sicrhau bod holl benderfyniadau polisi'r Cyngor yn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg, i'r Cyngor a sefydliadau partner gan sicrhau bod iaith wrth wraidd arloesi technolegol. Roedd dros hanner yr ymatebwyr (56% neu 40) yn cytuno â chamau gweithredu 16 i 20 ac roedd 44% (32 o ymatebwyr) yn anghytuno â'r gweithredoedd.




### Cwestiwn 12: Ar ôl i chi ystyried y wybodaeth ar dudalennau 38-39, a oes unrhyw gyfleoedd eraill y dylem fod yn rhoi sylw penodol iddynt?

Darparodd dros draean (38% neu 27) o'r ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Defnyddiodd y cyfranogwyr hyn fel cyfle i dynnu sylw at eu cytundeb cyffredinol neu anghytuno â'r camau gweithredu a/neu'r meysydd a awgrymwyd lle dylid rhoi sylw penodol. Roedd y sylwadau'n amrywio'n sylweddol, fodd bynnag, roedd rhai themâu ailadroddus. Mae'r tabl isod yn nodi'r themâu mwyaf cyffredin a gododd. Thema *seilwaith a chefnogaeth gymunedol* oedd â'r nifer fwyaf a gafodd ei grybwyll fwyaf (8 wedi crybwyll), ac yna *alinio Strategaeth gyda pholisïau a phenderfyniadau ehangach* a *chefnogaeth i economi a busnesau lleol*, gyda 6 yn sôn. Roedd *hyrwyddo defnydd a gwelededd y Gymraeg* ac *egwyddor a chwmpas y Strategaeth* yn nghynnwys 5 sylwad.

| Thema | Nifer yr achlysuron a'i grybwyllwyd |
|---|---:|
| Seilwaith a chefnogaeth gymunedol | 8 |
| Cam-linio Strategaeth gyda pholisïau a phenderfyniadau ehangach | 6 |
| Cefnogaeth i'r economi a busnesau lleol | 6 |
| Hyrwyddo defnydd a gwelededd y Gymraeg (cadarnhaol/negyddol) | 5 |
| Pryderon ynghylch egwyddor a chwmpas y Strategaeth | 5 |

**Nid yw'r ffigurau'n gyfystyr â chyfanswm yr ymatebion gan fod rhai sylwadau yn cynnwys mwy nag un thema.*

Ar y cyfan, roedd tua 40% o'r sylwadau yn gadarnhaol, i gefnogi'r wybodaeth ar dudalennau 38-39 a/neu feysydd a awgrymir i ganolbwyntio arnynt:

- Consensws mawr bod angen cynyddu argaeledd tai fforddiadwy i bobl leol (dyma'r ateb mwyaf cyffredin ar y cyfan, gydag 8 yn sôn amdano).
- Roedd rhai'n cytuno â'r angen i annog a chefnogi busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys rhannu arferion da (5 wedi crybwyll).

Yn yr un modd, roedd 40% o'r sylwadau yn negyddol, gan anghytuno â'r wybodaeth a'r camau gweithredu ar dudalennau 38-39:

- Roedd gan rai bryderon am y gydberthynas rhwng hyrwyddo'r Gymraeg a'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ac anghenion tai (4 wedi crybwyll).
- Roedd nifer fechan yn anghytuno ag egwyddor gyffredinol y Strategaeth (h.y. hyrwyddo/dylanwadu ar ddefnydd iaith) a phryderon bod hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei flaenoriaethu dros yr angen i fynd i'r afael â gwasanaethau sylfaenol y Cyngor a'u cynnal (2 grybwylliad yn y drefn honno)

Roedd yr 20% sy'n weddill o'r sylwadau yn rhoi awgrymiadau/cyfleoedd ychwanegol nad oeddent wedi'u cynnwys ar dudalennau 38-39 yr oedd ymatebwyr yn teimlo y dylid eu hystyried. Roedd sylwadau'n amrywio'n fawr ac roedd yr awgrymiadau'n cynnwys: gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy mewn mannau cyhoeddus i ddarparu cymhellion i staff Cymraeg.


Gweler sylwadau sampl yn ymwneud â Chwestiwn 12 yn y tabl isod:

| Sylwadau Sampl |
|---|

| | |
|---|---|
| "Bod yn ymwybodol bod tai yn y sir i lawer yn ddrud ac yn anghyraeddadwy - mae'r cynnydd mewn tai fforddiadwy yn dda. A oes rhyw ffordd y gallai'r gyllideb hon fynd tuag at wella cyflogau o fewn y sir hefyd? Helpu cefnogi siaradwyr Cymraeg i aros."<br>*Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | "Nid oes gan y cynllun datblygu lleol unrhyw beth i'w wneud ag iaith a phopeth sy'n ymwneud â gwella cysylltedd, cyfle addysg a hygyrchedd i gyflogaeth yn ogystal â'r strategaeth dai sy'n gweld landlordiaid yn tynnu arian allan o ddwylo'r rhai sydd ei angen yn hytrach na bod y morgeisi hynny ar gael i brynwyr sy'n bwriadu byw yn y tai hynny. Oes mae angen cymhellion ar stoc tai hŷn i bobl ifanc i adnewyddu'n ôl i'r farchnad."<br>*Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |
| "Credwn bod angen cryfhau'r nod sy'n awgrymu rhannu arfer da ymysg busnesau am fanteision dwyieithrwydd. Er mwyn normaleiddio'r Gymraeg mae angen cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd. Gellid gwneud hyn trwy adeiladu ar waith blaenor." | "Dylai'r cyngor fod yn gweithio ar ddarparu'r gwasanaethau sylfaenol nad ydynt yn eu gwneud ar hyn o bryd. Gwario arian lle mae ei angen ac nid ar gynlluniau as strategaethau diangen fel hyn."<br>*Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |

## Cwestiwn 13: Ydych chi'n meddwl bydd y Strategaeth yn cael effaith bositif ar y iaith Gymraeg?

Atebodd pob un o'r 72 o ymatebwyr gwestiwn 13 a ofynnodd a fyddai'r Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Roedd yr ymatebwyr o drwch blewyn o blaid i'r Strategaeth gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, gydag ychydig dros hanner yr ymatebwyr (51% neu 37) yn dewis 'Ydw'. Fodd bynnag, roedd y 49% oedd yn weddill yn anghytuno gyda'r Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.




Mae ymatebion yr arolwg yn datgelu gwahaniaeth nodedig mewn canfyddiadau o'r Strategaeth yn seiliedig ar hunaniaeth genedlaethol. Ymhlith y rhai sy'n nodi fel Cymraeg (cyfeiriwch at yr adran cydraddoldeb a monitro – Cwestiwn 40, tt.22-26), mae mwyafrif sylweddol (74%) yn credu y bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. I'r gwrthwyneb, dim ond 6% o'r ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn Brydeinwyr, ac nid oes yr un o'r rhai sy'n nodi eu bod yn Saeson na Chernyweg, yn rhannu'r farn gadarnhaol hon. Mae hyn yn awgrymu gwahaniaeth o ran cefnogaeth i'r Strategaeth, sy'n gysylltiedig â hunaniaeth genedlaethol yr ymatebwyr, a allai ddynodi lefelau gwahanol o fuddsoddiad neu ddiddordeb yn hyrwyddo'r Gymraeg.

## Cwestiwn 14: Nodwch unrhyw sylwadau am y cwestiwn uchod yma.

Gofynnodd Cwestiwn 14 i'r ymatebwyr gynnwys unrhyw sylwadau ynghylch a fyddai'r Strategaeth yn

cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg (Cwestiwn 13). Roedd ychydig llai na hanner (46% neu 33) o'r ymatebwyr wedi rhoi sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd sylwadau ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn yn amrywio'n fawr, gyda rhai themâu ailadroddus. Mae'r tabl isod yn nodi'r themâu a'r nifer o weithiau y soniwyd amdanynt yn y sylwadau.

| Thema | Nifer yr achlysuron a'i grybwyllwyd |
|---|---|
| Effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ond wedi nodi bod angen cymryd camau penodol | 8 |
| Amheuon ynghylch effeithiolrwydd/pwrpas y Strategaeth | 7 |
| Pryderon ynghylch cynwysoldeb | 6 |
| Effaith bositif ar y Gymraeg heb amodau | 5 |
| Gwrthwynebu'r hyn a ystyrir yn orfodaeth ar ran y Strategaeth | 5 |
| Ansicr | 1 |
| Arall | 1 |

Mynegodd mwyafrif bychan o'r sylwadau (24% / 8 o gyfeiriadau) y byddai'r *Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg*, ond wedi nodi bod angen *cymryd camau penodol*, gan awgrymu gwelliannau neu addasiadau. Mae'r rhan fwyaf o'r awgrymiadau hyn yn cael eu cadw o fewn yr ymatebion i gwestiynau blaenorol. Roedd yr awgrymiadau'n amrywio o'r canlynol: *sicrhau bod gan y Strategaeth ddigon o fuddsoddiad i lwyddo, darparu cefnogaeth i fusnesau i weithredu'n ddwyieithog, a darparu cefnogaeth/hyrwyddo'r Gymraeg i gymunedau di-Gymraeg*, i enwi ond ychydig.

Roedd yr ail thema fwyaf cyffredin yn ymwneud ag *amheuon ynghylch effeithiolrwydd/pwrpas y Strategaeth*, cafodd hyn ei gynnwys o fewn 21% o'r sylwadau (cyfeiriwyd ati 7 gwaith). Cafodd wahanol bwyntiau eu cyflwyno, ond ar y cyfan roeddent yn ymwneud â'r canlynol: gormod o bwyslais ar bolisïau hyrwyddo'r iaith Gymraeg, pryderon ynghylch cost gweithredu'r Strategaeth a'r angen i fuddsoddi mewn meysydd eraill (megis creu swyddi).

Pryderon yn ymwneud â chynhwysiant oedd y drydedd thema fwyaf cyffredin, cafodd hyn ei gynnwys o fewn 18% o'r ymatebion (6 o gyfeiriadau). Gellir rhannu'r sylwadau hyn yn ddau grŵp; yn gyntaf, y rhai a fynegodd fod angen i'r camau sy'n sail i'r Strategaeth fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i'r *holl* breswylwyr, ac yn ail, y rhai a oedd yn teimlo bod y siaradwyr di-Gymraeg ar y cyrion ar hyn o bryd a/neu gan y Strategaeth (e.e. yn benodol mewn perthynas â swyddi lle mae angen siaradwyr Cymraeg rhugl).

Mynegodd 15% o'r sylwadau ysgrifenedig y *byddai'r Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg fel y mae ar hyn o bryd.* Darparodd y sylwadau hyn cefnogaeth ddiamod i'r Strategaeth a'i heffaith. Ar y llaw arall, roedd cyfran debyg (15% o'r sylwadau/5 o gyfeiriadau) *yn erbyn y teimlad o orfodaeth sydd yn y Strategaeth.* Roedd yr ymatebion negyddol hyn yn canolbwyntio ar y canfyddiad bod y Strategaeth yn gorfodi defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, gan arwain o bosibl at raniadau neu ymatebion anffafriol.

Mae'r tabl isod yn dangos sylwadau sampl o Gwestiwn 14:

| Sylwadau Sampl |
|---|

| | |
|---|---|
| "Ond dim ond gyda'r diwygiadau a amlinellwyd. Mae gormod yn meddwl mai'r ffordd i hybu'r Gymraeg yw trwy orfodi pobl i siarad a gwrthod derbyn ieithoedd eraill, mae bron yn teimlo fel y 'Welsh Not' i'r gwrthwyneb! Y peth allweddol yma yw HYRWYDDO nid GORFODI."<br>** Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | "Mae'n beth cadarnhaol bod yr iaith yn cael y sylw yma. Mae'r nodau'n gywir, dylid gwneud popeth y gellir ei wneud i warchod a sicrhau twf yn yr iaith."<br>** Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |
| Mae'r iaith Gymraeg yn hyfryd. Rwyf wedi bod yn ei dysgu fy hun ond mae'n anodd ac mae llawer o bobl yn methu ac yn rhoi'r gorau iddi. Nid yw'r bobl hynny'n gallu gwneud cais am rai swyddi oherwydd nad ydynt yn rhugl, gan leihau'r gronfa o dalent sydd ar gael ar gyfer rhai swyddi. Mae'r di-Gymraeg yn teimlo'n ymylol. Dw i'n credu mai dim ond lleiafrif o bobl sy'n cyrchu gwefan Cymraeg y cyngor?"<br>** Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | "Mae angen sicrhau bod y Gymraeg di-Gymraeg yn teimlo'n rhan bwysig o'n gymunedau a'n diwylliant. Yn aml mae nhw yn tueddu i teimlo fel trigolion 'llai' na'r Gymru Gymraeg." |

## Cwestiwn 15: Os oes gyda chi unrhyw sylwadau ychwanegol neu gyffredinol am y Strategaeth, gallwch eu nodi isod.

Cyflwynodd ychydig llai na thraean o'r ymatebwyr (32% neu 23) ateb i Gwestiwn 15, a oedd yn gofyn iddynt nodi unrhyw sylwadau ychwanegol neu gyffredinol am y Strategaeth. Rhannwyd y sylwadau i saith thema (gweler y tabl isod).

| Thema | Nifer yr achlysuron a'i grybwyllwyd |
|---|---|
| Pryderon ynghylch dyraniad adnoddau a blaenoriaethu | 6 |
| Pryderon ynghylch ymarferoldeb gweithredu'r strategaeth | 5 |
| Amheuon ynghylch effeithiolrwydd / diffuantrwydd y Strategaeth | 4 |
| Cynhwysedd y Strategaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg | 2 |
| Pwysigrwydd diwylliannol ac addysgiadol | 2 |
| Galwadau am ymgysylltu ac ymchwil ehangach | 2 |
| Arall | 2 |

Roedd mwyafrif bach o'r sylwadau (6/26%) yn ymwneud â *phryderon ynghylch dyraniad adnoddau a blaenoriaethu*. Yn debyg i ymatebion blaenorol, roedd y grŵp hwn o ymatebwyr yn teimlo y byddai'n well gwario adnoddau ar feysydd eraill, fel gofal cymdeithasol, creu swyddi ac adeiladu tai. Roedd eraill o'r farn y dylid ail-ymweld â'r Strategaeth er mwyn gofyn i drigolion ble yr hoffent ddyrannu adnoddau'r Cyngor.

Roedd ychydig dros un rhan o bump (22%/5 o gyfeiriadau) yn poeni am ymarferoldeb gweithredu'r Strategaeth. Roedd sylwadau'n canolbwyntio ar sut y dylid gweithredu'r Strategaeth, gyda phryderon ynghylch dichonoldeb ac ymarferoldeb. Roedd y sylwadau hyn yn amrywio o: cryfhau a chynyddu'r nifer o dargedau er mwyn sicrhau bod staff y Cyngor yn ddwyieithog yn y lle cyntaf, cyn gweithredu'r Strategaeth.

Y thema nesaf fwyaf poblogaidd oedd *amheuon ynghylch effeithiolrwydd / diffuantrwydd y Strategaeth*, yn 17% o'r sylwadau (4 o gyfeiriadau). Mynegodd y grŵp hwn o ymatebwyr amheuaeth

ynghylch effeithiolrwydd neu ddiffuantrwydd y Strategaeth, gan awgrymu y gallai fod yn afrealistig. Roedd rhai yn teimlo na fyddai barn y rhai nad oeddent yn cefnogi'r Strategaeth yn cael ei chlywed, tra bod eraill yn credu ei bod yn wastraff amser.


Roedd y tair thema arall fel a ganlyn a derbyniwyd 2 o gyfeiriadau at bob un: *cynhwysedd y Strategaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg, pwysigrwydd diwylliannol ac addysgiadol a galwadau am ymgysylltu ac ymchwil ehangach*. Roedd y sylwadau'n amrywio o geisio arfer gorau o wledydd bach eraill sydd wedi integreiddio iaith yn eu cymunedau e.e. yr Iseldiroedd, er mwyn dod o hyd i ffyrdd o gynnwys yr holl breswylwyr (gan gynnwys trigolion di-Gymraeg).

Mae'r tabl isod yn dangos sylwadau sampl o Gwestiwn 15:

| Sylwadau Sampl | |
|---|---|
| Yn gyntaf, hoffen ni nodi cyn lleied o dargedau sydd yn y ddogfen. Mae ffyrdd o fesur cynnydd yn cael eu crybwyll ond does dim targedau fesul cam. Dim ond un targed, ar gyfer y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn 2029, sydd yn y ddogfen ac rydym eisoes wedi dadlau bod hyn yn rhy wan o lawer. Heb dargedau pendant, mae'n anodd gweld sut fydd cynnydd mewn unrhyw feysydd yn cael ei flaenoriaethu dros amcanion y Cyngor mewn meysydd eraill nad sydd yn cyfrannu at y Gymraeg…" | "Byddwch yn glir hefyd bod angen cydnabod darpariaeth sgiliau bywyd da a buddsoddi mewn sgiliau da. Mae dau fesur penodol yn y cynllun hwn, yn fy marn i, yn atal Ceredigion rhag cydnabod talent dda y dylid ei wneud dros yr iaith a siaredir.<br>1. Hyrwyddo mwy o gymwysterau cyfrwng Cymraeg yn y sector Uwchradd ….<br>2. Bydd cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn y cyngor ar adeg pan fo nifer yr oedolion Cymraeg eu hiaith wedi gostwng yn y cyngor yn golygu bod swyddi a dyrchafiad yn cael eu rhoi mwy ar allu ieithyddol na sgil."<br>** Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* |
| "Ailgyfeirio'r gyllideb siaradwyr Cymraeg am y pum mlynedd nesaf i ofal cymdeithasol ac adeiladu cartrefi i'w rhentu."<br>** Saesneg oedd iaith wreiddiol y dyfyniad hwn.* | "Dylai'r pwyslais fod ar Gymry a Chymry di-Gymraeg yr ardal i'w hannog i ddysgu a defnyddio'r iaith" |

## Cwestiwn 16: A oes yna rôl i chi eich hun neu eich sefydliad wrth geisio cyflawni'r weledigaeth yn y Strategaeth?

Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (56% neu 40 o ymatebwyr) nad oedd rôl iddyn nhw na'u sefydliad wrth geisio gwireddu gweledigaeth y Strategaeth. Dywedodd ychydig dros ddau o bob pump (43% neu 31 o ymatebwyr) fod ganddyn nhw / y sefydliad rôl wrth geisio gwireddu gweledigaeth y Strategaeth, Gadawodd un ymatebwr y cwestiwn hwn heb ei ateb. Mae cyfran yr ymatebwyr a oedd yn teimlo nad oedd ganddynt/y sefydliad rôl mewn ceisio gwireddu'r weledigaeth yn uwch na'r disgwyl, fodd bynnag, gallai hyn gael ei yrru gan y gyfran uchel o ymatebwyr a atebodd fel unigolion (90%) o gymharu ag ar ran sefydliad (8%), a adlewyrchir yng Nghwestiwn 18 trosodd.




### Cwestiwn 17: Nodwch eich rôl os gwelwch yn dda a pha thema strategol y byddai'n cyfrannu ato.

Darparodd 31 o ymatebwyr (41%) ymatebion i'r cwestiwn hwn, a oedd yn gofyn iddynt nodi eu rôl a'r nod strategol y byddai'n cyfrannu ato. O'r 31 oedd wedi ateb y cwestiwn, nododd 25 o'r ymatebwyr bod ganddynt rôl mewn ceisio gwireddu'r weledigaeth, tra bod y 6 arall y nodi nad oedd ganddynt rôl (Cwestiwn 16). Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio, rhai yn nodi'r nod strategol, rhai'n egluro sut y byddent yn cyfrannu at y Strategaeth, tra bod eraill yn ei ddefnyddio fel cyfle i fynegi eu hanghydfod neu eu pryderon am y Strategaeth/weledigaeth.

Mae'r ymatebion wedi'u grwpio o dan y pedair thema strategol, mae'r rhain yn cynnwys ymatebion a oedd yn cyfeirio'n uniongyrchol at y nod y byddai eu rôl yn cyfrannu ato, a'r rhai a gyfeiriodd at feysydd ffocws penodol o fewn y nod strategol ond nad oeddent yn sôn yn benodol am y nod. Mae'r olaf yn dangos nod(au) a benderfynwyd gan feysydd ffocws eu hymateb.

| Nod Strategol | Nifer yr achlysuron a'i grybwyllwyd |
|---|---:|
| Nod Strategol 1 - Dysgu | 13 |
| Nod Strategol 2 - Byw | 15 |
| Nod Strategol 3 - Perthyn | 11 |
| Nod Strategol 4 – Llwyddo | 4 |
| Arall | 6 |


O'r 31 ymateb, cyfeiriwyd at *Nod Strategol 2 – Byw* fwyaf (15 o gyfeiriadau), roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys: defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn y gweithle, annog eraill i ddefnyddio/siarad Cymraeg, ac ymrwymiad i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 gan sefydliadau. Yr ail nod y cyfeiriwyd ato fwyaf oedd *Nod Strategol 1 – Dysgu* (13 o gyfeiriadau), roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys: dysgu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg trwy'r gwaith (e.e. Athro/Athrawes Ysgol) a'r rôl sydd gan holl drigolion y sir i ddysgu a hybu'r Gymraeg yn y Sir. Y trydydd nod y cyfeiriwyd ato fwyaf oedd *Nod Strategol 3 – Perthyn* (11 o gyfeiriadau), roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys hyrwyddo a defnydd

dyddiol o'r Gymraeg yn y gymuned. Yn olaf, *Nod Strategol 4 – Llwyddo*, derbyniodd y nifer lleiaf o gyfeiriadau (4 o gyfeiriadau) ac nid oedd unrhyw sylwadau ychwanegol.

Roedd y categori 'arall' yn cynnwys ymatebion nad oeddent yn ymwneud ag unrhyw nod strategol, ac roedd yr ymatebion hyn i raddau helaeth yn anghytuno â'r Strategaeth (6 o gyfeiriadau). Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys: y canfyddiad bod y Strategaeth yn gwahanu trigolion di-Gymraeg, y diffyg angen am y Strategaeth a sylwadau yn ymwneud ag effaith newid darpariaeth chweched dosbarth sy'n rhwystro eglurder y Strategaeth.

## Cwestiwn 18: Nodwch ar ran pwy ydych chi'n cwblhau'r holiadur:


O'r 72 o ymatebwyr, roedd 90% wedi cwblhau'r holiadur fel unigolion ac 8% wedi'i gwblhau ar ran sefydliad neu fusnes. Gadawodd 1% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn heb ei ateb.




# Gwybodaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cafodd cwestiynau monitro demograffig a chydraddoldeb safonol y Cyngor eu holi fel rhan o'r arolwg. Mae'r cwestiynau hyn yn wirfoddol ac yn ein helpu i ddeall a yw'r sampl arolwg yn cynrychioli barn trigolion Ceredigion (mae sampl cynrychioladol yn is-grŵp bach sy'n ceisio adlewyrchu nodweddion penodol a ddangosir mewn poblogaeth darged). Mae'r adran gyntaf yn darparu data a gasglwyd o'r cwestiynau monitro cydraddoldeb gwirfoddol (cwestiynau 37i 46 o'r arolwg). Mae'r ail hanner yn cymharu data monitro cydraddoldeb ac amrywiad â data Cyfrifiad 2021, er mwyn darparu trosolwg o'r grwpiau demograffig allweddol, gan amlygu pa grwpiau sydd wedi'u gorgynrychioli neu eu tangynrychioli yn yr arolwg.


20. Beth yw eich oedran?




21. Beth yw eich hunaniaeth o ran rhywedd?





22. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl amdanoch chi'ch hun?





23. Sut fyddech chi yn disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?




24. Sut fyddech chi yn disgrifio eich grŵp ethnig?





25. Beth yw eich grefydd neu gred?





26. Ydych chi wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU <u>o'r blaen</u>? (dylai aelodau cyfredol ddweud 'na')




27. A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?




28. Beth yw eich dewis iaith?




29. Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?




** Roedd y cwestiwn hwn yn cynnwys atebion lluosog ac felly nid yw'n crynhoi cyfanswm yr ymatebion.*

Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o nodweddion poblogaeth yr ymatebwyr, gan dynnu sylw at ba grwpiau sydd yn cael eu gorgynrychioli neu eu tangyrychioli yn yr arolwg.

## Oedran

Yn gyffredinol, roedd yr arolwg yn casglu barn trigolion o bob oed. Fodd bynnag, o edrych ar broffil oedran Ceredigion (gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021), roedd tangynrychiolaeth o'r grwpiau oedran iau (15 mlwydd oed ac iau ac 16 – 24 mlwydd oed) yn ogystal â'r grwpiau oedran hŷn (65 oed +), a gorgynrychiolaeth o oedolion hŷn (45-64 oed) ymhlith ymatebwyr yr arolwg. Y grŵp oedran a oedd â lefel gywir o gynrychiolaeth (h.y., yr agosaf at y proffil Sir gyfan), oedd y bobl ifanc 25 i 44 oed, yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd 19.0% o drigolion Ceredigion yn y grŵp oedran hwn o gymharu â 17.0% o ymatebwyr yr arolwg.

## Rhyw

Roedd ein harolwg ar yr ymgynghoriad yn cynnwys llawer mwy o ymatebion gan fenywod na dynion. O'r 72 o ymatebwyr i'r arolwg, roedd 47% yn fenywod a 27% yn ddynion. Mae'n anodd deall i ba raddau yr oedd rhyw yn cael ei orgynrychioli neu ei dangynrychioli gan fod cyfran fach o'r ymatebwyr wedi penderfynu peidio â nodi eu rhyw (8%) ac 11% yn gadael y cwestiwn hwn heb ei ateb. Fodd bynnag, yr hy'n sy'n amlwg yw na chafodd safbwyntiau dynion eu cynrychioli'n ddigonol n yr ymgynghoriad hwn. Yn nodweddiadol, mae ymchwil wedi canfod bod dynion yn llai tebygol o gymryd rhan mewn arolygon o gymharu â menywod.

## Hunaniaeth Genedlaethol

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn nodi eu bod yn 'Gymry' (44%), roedd hyn i'w ddisgwyl ac mae'n eithaf tebyg i gyfansoddiad poblogaeth gyfan Ceredigion, gyda 46.7% yn uniaethu â chenedligrwydd Cymru yng Nghyfrifiad 2021. Yr ail genedligrwydd mwyaf cyffredin a nodwyd oedd 'Prydeinig' (28%), a dybir ac mae ei safle yn cyd-fynd â'r ffigur ar draws y Sir. Fodd bynnag, roedd tangynrychiolaeth o ymatebwyr Saesneg, gyda dim ond 1% yn cymryd rhan yn yr arolwg. Mae hyn i'w gymharu â 14.6% o drigolion Ceredigion sy'n nodi eu bod yn 'Saeson' yng Nghyfrifiad 2021. Gan fod 7% wedi nodi 'gwell gennyf beidio â dweud' a 15% heb ateb y cwestiwn hwn, mae'n anodd deall gwir faint o dangynrychiolaeth sydd i'w gael o fewn y data.

## Ethnigrwydd

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (79.0%) o ethnigrwydd 'gwyn', roedd yn well gan 7.0% 'beidio â dweud' ac ni atebodd 14.0% y cwestiwn yn ymwneud ag ethnigrwydd. Ni nododd yr un o'r ymatebwyr eu hethnigrwydd fel Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig, Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd, neu Ethnig Cymysg / Aml-Ethnig. Mae barn y grwpiau ethnig hyn yn cael ei thangynrychioli yn yr ymgynghoriad, gan fod rhwng 0.5% a 1.5% o'r boblogaeth breswyl yn cynnwys y grwpiau ethnig eraill hyn.


## Crefydd


Nododd mwyafrif cul o'r ymatebwyr eu bod yn Gristnogion (39.0%), sef y brif grefydd yng Ngheredigion fel y'i cofnodwyd gan Gyfrifiad 2021 (46.7% o'r trigolion). Yr ail grefydd fwyaf cyffredin a nodwyd oedd 'dim crefydd', gyda thua thraean o'r ymatebwyr (33%) yn dewis yr opsiwn hwn (o gymharu â 43.0% o drigolion fel y cofnodwyd gan Gyfrifiad 2021). Ni chymerodd unrhyw ymatebwyr a


oedd yn uniaethu â chrefyddau, megis Bwdhaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Mwslimaidd a Sikh ran yn yr arolwg. Er mai dim ond rhwng 0.1% a 0.9% o'r boblogaeth breswyl y mae'r grwpiau hyn yn eu cynnwys, mae'r diffyg cyfranogiad yn amlygu eu tangynrychiolaeth yng nghanfyddiadau'r arolwg. Ni atebodd tua 15% y cwestiwn yn ymwneud â chrefydd ac roedd yn well gan 11.0% beidio â datgan eu crefydd.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council









# STRATEGAETH HYBU'R IAITH GYMRAEG 2024-29

**Wedi ei pharatoi yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 dan ofynion Safonau'r Iaith Gymraeg**



Mae fersiwn Cymraeg a Saesneg o'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor: www.ceredigion.gov.uk

# RHAGAIR GAN AELOD CABINET DROS Y GYMRAEG A DIWYLLIANT

Yn 2011 drwy i'n Senedd fabwysiadu Mesur Y Gymraeg sefydlwyd dwy egwyddor gyfreithiol bwysig yn ymwneud â'r Gymraeg:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Nodir hefyd Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, sef yr amcan o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Mae'r strategaeth yn cyflwyno tair thema er mwyn cyrraedd y nod:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Gyda hynny yn gefnlen, ac fel yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros yr Iaith Gymraeg i Gyngor Ceredigion,

mae'n bleser gennyf gyflwyno Strategaeth Iaith Ceredigion 2024-29.

Diben y Strategaeth hon yw i ddangos ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r iaith ar draws y Sir gan amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Ngheredigion. Y mae'r cynlluniau a'r prosiectau a amlinellir yn canolbwyntio ar feysydd lle y mae gan y Cyngor ddylanwad megis gweithlu'r Cyngor, byd addysg, gwaith Cered ac ati.

Mae'r Strategaeth hon yn adlewyrchiad o'n cyfrifoldebau tuag at y Gymraeg a'n parodrwydd fel Cyngor i weithredu i warchod y Gymraeg, i atal mwy o ddirywiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg sydd yn y sir ac i gynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol. Nid edrych at gynyddu niferoedd yn unig fydd y Strategaeth hwn, mi fydd yn adlewyrchu ein hamcan i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac i sicrhau y gweithlu, defnyddwyr, trigolion, dysgwyr ac eraill, bod eu Cymraeg yn werth ei siarad.

Rydyn ni am i bawb fod yn falch o'u Cymraeg a'u bod yn barod i'w ddwyn i fewn i'r rhannau hynny o'r gymdeithas lle nad ydyw mor amlwg â hynny ar y funud.



**Y Cynghorydd Catrin M S Davies**

Aelod Cabinet dros y Gymraeg a Diwylliant,
Cyngor Sir Ceredigion



## CYNNWYS


Cyflwyniad 4

Ein Gweledigaeth 5

Sefyllfa'r Gymraeg 6

Y Cyd-destun Polisi 9

Themau Strategol 12

Thema Strategol 1: DYSGU 13

Thema Strategol 2: BYW 20

Thema Strategol 3: PERTHYN 27

Thema Strategol 4: LLWYDDO 34

Gweithredu'r Strategaeth 41

# CYFLWYNIAD

Mae'r Strategaeth hon yn adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan Strategaeth Iaith 2018-23 a'r gwaith arbennig a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y Sir. Mae hyfywedd yr iaith Gymraeg yn ddibynnol ar gynnal cymunedau lle mae nifer sylweddol o'r boblogaeth yn gallu siarad yr iaith ac yn medru ei defnyddio ymhob agwedd o fywyd bob dydd.

Bydd angen i'n gweithredoedd gyfrannu tuag at godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg fel rhan hanfodol o hunaniaeth a threftadaeth Ceredigion; gan gyflwyno ymyraethau pendant a phenodol ar gyfer annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y sir.

Mae'r Strategaeth hon yn cyflwyno nifer o gamau a chanlyniadau uchelgeisiol er mwyn gweld yr iaith yn ffynnu ar draws y Sir. Bydd y Strategaeth hefyd yn cyfrannu tuag at gyrraedd Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050, sydd yn gosod y targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.



# EIN GWELEDIGAETH

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Rydym am weld y Gymraeg a Chymreictod yn perthyn i bob un yng Ngheredigion ac yn destun balchder ymysg holl drigolion y sir.

**Drwy gyflawni'r gweithredoedd sydd wedi'u hamlygu yn y Strategaeth hon:**

- Rydym eisiau gweld pawb o fewn y Sir yn rhoi gwerth a bri i'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.
- Rydym am weld defnydd cynyddol ohoni ym mhob agwedd o fywyd cyhoeddus yn y sir; lle mae modd i drigolion fyw, dysgu, perthyn a llwyddo trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rydym am sicrhau **bod defnydd o'r Gymraeg yn cael ei** hybu'n gwbl naturiol, a bod yr iaith Gymraeg yn cael ei diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.
- Rydym yn tybio bydd canran y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu 1.5% o 45.3% yn 2021 i 46.8% yn 2029, bydd hyn yn arwain at gynnydd o 612 o siaradwyr Cymraeg oddi ar y llinell sylfaen 2021. Mae hyn yn golygu erbyn 2029 dylai fod 32,292 o drigolion yn siarad Cymraeg yng Ngheredigion.



# Sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion

Cyngor Sir CEREDIGION County Council



# Sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Canlyniadau'r Cyfrifiad bob deng mlynedd yw'r brif ffynhonnell ddata am y Gymraeg yng Nghymru a chaiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i asesu cynnydd yn erbyn y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rhyddhawyd data Cyfrifiad 2021 ar y 6ed o Ragfyr 2022, gan adrodd bod y niferoedd o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ar draws Cymru o 19% i 18%.

## Y sefyllfa yng Nghheredigion

- Nododd ychydig o dan hanner y boblogaeth **45.3%** (31,680 o breswylwyr) eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Golyga hyn fod 3,290 yn llai o siaradwyr Cymraeg yn y sir ers 2011
- Mae **71.8%** o blant 3-15 oed yn medru siarad Cymraeg yng Nghheredigion (-1,052 yn llai o siaradwyr Cymraeg)
- Mae **42.4%** o bobl rhwng 16-64 oed yn medru siarad Cymraeg yng Nghheredigion (-2,284 o siaradwyr Cymraeg)
- Mae **39.9%** o bobl 65+ mlwydd oed yn medru siarad Cymraeg yng Nghheredigion(+ 61)

Mae Ceredigion yn parhau i gael ei ystyried fel un o gadarnleoedd y Gymraeg. Parhaodd Ceredigion fel yr awdurdod lleol gyda'r drydedd gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn genedlaethol **(45.3%),** y tu ôl i Wynedd **(64.4%)** ac Ynys Môn **(55.8%).**

**31,678**
o siaradwyr Cymraeg yng Nghheredigion
(Mawrth 2021)

Cymraeg

**45.3%**
o boblogaeth Ceredigion yn nodi eu bod yn medru siarad Cymraeg

**2.0**
gostyngiad pwynt canrannol yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg ers 2011

**-3,286**
siaradwyr Cymraeg yng Nghheredigion ers 2011

**59.0%**
Yn medru siarad Cymraeg yn AGEHI Aberaeron, y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg ar draws y Sir
(Yr isaf yw AGEHI Penglais 1 19.7%)

**Dadansoddiad sgiliau**
Siarad Cymraeg – 45.3%
Medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg – 37.3%
Dim sgiliau Cymraeg – 43.6%


**46.7%**
o breswylwyr Ceredigion yn meddwl am eu hunain fel Cymry yn unig
(Mae hyn wedi cynyddu 0.1 pwynt canran ers Cyfrifiad 2011)

**Dadansoddiad yn ôl oedran**
3-15 – 71.8%
16-64 – 42.4%
65+ - 39.9%


DRAFT

# Sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion (parhâd)

Mae'r ffigurau o ran nifer y siaradwyr Cymraeg wedi bod ar i lawr ers Cyfrifiad 1981. Fodd bynnag, roedd cyflymder y gostyngiad yn arafach dros y degawd diwethaf (gostyngiad o 2% o gymharu â 2001-2011 (gostyngiad o 4.7%).




Er y cafwyd gostyngiad cyffredinol yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, bu cynnydd yng nghyfran yr oedolion sy'n medru siarad Cymraeg (pobl rhwng 16 a 44 mlwydd oed) ers Cyfrifiad 2011 (cynnydd o 2.2%). Mae'r duedd newydd hon yn un gadarnhaol, sy'n awgrymu bod cynnydd yn cael ei wneud o ran cadw siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion.




## Casgliadau

Wrth ddadansoddi adroddiadau'r Cyfrifiad, rydym yn gweld bod dirywiad parhaus yn nifer a chryfder cymunedau sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg fel eu prif fodd o gyfathrebu. Mae nifer o ffactorau sydd wedi cyfrannu at y dirywiad ieithyddol hwn, gweler y pwyntiau bwled.

O ganlyniad, bydd y Strategaeth hon yn ymdrechu i gyflwyno ymyraethau pendant a phenodol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion ar draws y sir ddefnyddio ac arddel yr iaith o ddydd i ddydd.

- Teuluoedd ddim yn trosglwyddo'r iaith.
- Diffyg cyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg, hyn yn effeithio ar hyder unigolion yn eu gallu a'u sgiliau.
- Allfudo pobl ifanc.
- Statws isel y Gymraeg fel iaith busnes.
- Prinder argaeledd tai a thai fforddiadwy.
- Symudoledd demograffeg.
- Dylanwad technoleg.



# Y CYD-DESTUN POLISI

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r fframwaith statudol a pholisi y mae'r strategaeth hon yn atebol iddo.

Wrth weithredu'r strategaeth byddwn yn ymwybodol o flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yng nghyswllt y Gymraeg, yn ogystal â strategaethau thematig mae Cyngor Sir Ceredigion yn cyfrannu tuag at eu gweithredu o fewn y sir.

# Y CYD-DESTUN POLISI

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Mae datblygu Strategaeth pum mlynedd i hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg ar draws Ceredigion yn ofyniad statudol sy'n deillio o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.**

Fe wnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu dwy egwyddor gyfreithiol bwysig yn ymwneud â'r Gymraeg:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.
- Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â safonau ymddygiad sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith Gymraeg. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn gweithredu'r safonau hyn ers mis Mawrth 2016. Yn unol â hyn, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n manylu ar weithrediad Safonau'r Gymraeg.

**Pwrpas Safonau'r Gymraeg yw:**

- Gwella'r gwasanaeth Cymraeg i siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg
- Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt wneud o ran y Gymraeg
- Sicrhau cysondeb dyletswyddau a osodir ar gyrff o fewn yr un sectorau
- Gosod dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Pum Mlynedd sy'n esbonio sut y bydd yn mynd ati, gyda phartneriaid allweddol i hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn ehangach ar draws y Sir (Safon 145)

**Cymraeg 2050 miliwn o siaradwyr Cymraeg**

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth hon yw creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae'r strategaeth yn cyflwyno tair thema er mwyn cyrraedd y nod:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Bydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion 2024-29 yn cyfrannu tuag at gyflawni'r uchelgais hwn yn lleol yng Ngheredigion.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i osod a chyhoeddi Amcanion Llesiant sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, gan greu'r Gymru yr ydym ni am ei chael nawr ac yn y dyfodol. Un o'r saith nod llesiant yw sicrhau '**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi datblygu Cynllun Llesiant (2023-2028), er mwyn medru cydweithio tuag at gyflawni nodau'r ddeddf. Ymhlith egwyddorion sylfaenol y Cynllun mae cydnabyddiaeth fod natur ddwyieithog y sir yn nodwedd i'w chynnal a'i datblygu; ac o ganlyniad mae hyfywedd y gymuned iaith Gymraeg yn thema amlwg yn y rhaglenni gwaith.

# Y CYD-DESTUN POLISI

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Y Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027**

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion hanes hir o gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gyfer ein defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg, a rhoddir lle amlwg i'r iaith yn ein cynlluniau gweithredu. Mae hyfywedd y gymuned iaith Gymraeg yn thema llorweddol yn rhaglen waith y Strategaeth Gorfforaethol; ac mae'r strategaeth honno yn nodi gweledigaeth y Cyngor Sir sef:

***"Darparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy a dwyieithog sy'n cynnig gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, cefnogi amgylchedd iach a hyrwyddo llesiant ein pobl a'n cymunedau."***

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi derbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32, sy'n amlinellu sut y bydd y Sir yn cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru ac yn cynllunio'n well ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg y sir. Gweledigaeth y Cyngor fel rhan o'r cynllun hwn yw:

**"Mae Cyngor Sir Ceredigion yn glir yn ei nod a'i egwyddor o ddatblygu medrau disgyblion er mwyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn rhugl a hyderus. Bydd hyn yn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, gan feithrin balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Ceredigion a Chymru."**

Mae gan y Strategaeth rôl gwbl allweddol yn ymdrechion y Cyngor i gynyddu nifer ein trigolion sy'n caffael y Gymraeg, ac fe fydd yn hanfodol fod Strategaeth Iaith Ceredigion yn atgyfnerthu ac yn cefnogi'r Cynllun hwn.

**Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau'**

Mae'r fframwaith hon yn gosod disgwyliadau ar Gyngor Sir Ceredigion, o gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ganolog i'r strategaeth mae'r her o ddatblygu'r 'cynnig rhagweithiol', sef bod aelodau staff yn cynnig gwasanaeth Cymraeg i ddefnyddwyr gwasanaeth o'r cyswllt cyntaf, fel nad oes rhaid i'r defnyddiwr orfod gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg.

**Polisi Cynllunio Ceredigion**

Mae'r Polisi hwn yn cydnabod y rôl mae'r system gynllunio yn ei chwarae wrth gyfrannu at hyfywedd y Gymraeg; a hynny drwy greu amodau cynaliadwy ar gyfer cymunedau ffyniannus, a gefnogir gan ymwybyddiaeth o egwyddorion perthnasol cynllunio ieithyddol. Bydd y gwasanaeth cynllunio yn ymchwilio i'r ffordd orau o gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, drwy ystyried dynodi Ceredigion gyfan yn ardal 'sensitif' yn ieithyddol. Lle bydd rhan o'r cynllun yn rhoi ystyriaeth benodol i gymunedau lle mae defnyddio'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd wrth wneud penderfyniadau a llunio polisïau.

**Strategaeth Economi Ceredigion (2020-35)**

Mae'r economi yn bwysig i ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol. Cafodd Strategaeth Economi Ceredigion (2020-35) ei chyhoeddi yn 2022, ac mae'r Strategaeth hon hefyd yn cydnabod yr angen i ddiogelu a gwella ein hunaniaeth diwylliannol, a helpu i roi hwb i gydnerthedd a thwf y Gymraeg.

# THEMAU

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth rydym wedi gosod 4 thema strategol ar gyfer y Strategaeth hon, ac iddynt nifer sylweddol o feysydd gwaith cysylltiol. Mae Ceredigion yn fan lle mae modd dysgu, byw, perthyn a llwyddo drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Dysgu

**(Plant, Pobl Ifanc a'r Teulu)**

- Mwy o rieni yn trosglwyddo Iaith ar yr aelwyd
- Cynnal canran darpariaeth gofal plant Cymraeg
- Mwy o blant yn cael eu cefnogi i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg
- Plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a'r byd gwaith
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau tu allan i'r ystafell ddosbarth

## Byw

**(Gwasanaethau a'r Gweithle)**

- Mwy o wasanaethau cyfrwng Cymraeg o ansawdd ar gael
- Mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd
- Rhoi gwerth ar sgiliau iaith y gweithlu
- Cynyddu'r niferoedd sy'n derbyn cefnogaeth i ddysgu neu datblygu sgiliau iaith Gymraeg mewn gweithleoedd

## Perthyn

**(Y Gymuned)**

- Cynnal gweithgarwch cymunedol Cymraeg byrlymus
- Ymwybyddiaeth eang o werth y Gymraeg, a'i defnydd yn cynyddu
- **Cefnogi newydd-ddyfodiaid i fod yn rhan o'r gymuned**
- Niferoedd sy'n mynychu rhaglenni 'Cymraeg i Oedolion' yn y gymuned yn cynyddu
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg

## Llwyddo

**(Y Seilwaith)**

- Holl benderfyniadau polisi y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd y Gymraeg
- Cynnal economi ffyniannus sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg ac ar sgiliau Cymraeg
- Cynnal polisi cynllunio defnydd tir sy'n cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg
- Cyflenwad digonol o dai fforddiadwy fel bod pobl yn medru aros yn eu cynefin a pharhau i gyfrannu at fywiogrwydd yr iaith Gymraeg
- Manteisio ar dechnoleg i hwyluso defnyddio'r Gymraeg




Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

## dysgu

*Bydd plant y cae lleol sy’n wreiddiau i gyd*

*Yn blant y gymuned, plant Cymru a’r byd*

*Ceri Wyn*

# THEMA STRATEGOL 1

Cyngor Sir CEREDIGION County Council



Dysgu

Caru Love Ceredigion

## Yr hyn yr ydym ni eisiau ei gyflawni

- Mwy o rieni yn trosglwyddo iaith ar yr aelwyd.
- Cynnal canran darpariaeth gofal plant Cymraeg.
- Mwy o blant yn cael eu cefnogi i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg.
- Plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a'r byd gwaith.
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau tu allan i'r ystafell ddosbarth.

# THEMA STRATEGOL 1






Caru·Love Ceredigion

⇒ Mae trosglwyddo’r Gymraeg o un genhedlaeth i’r llall o fewn y teulu yn hollbwysig er mwyn cynnal a gwarchod y Gymraeg. Mae’r strategaeth yn cydnabod pa mor allweddol yw’r system addysg fel y prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg newydd yng Ngheredigion. Bydd y Strategaeth hon yn gweithio ochr yn ochr â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2022-32. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu, clywed a defnyddio’r iaith o fewn yr ysgol yn ogystal â thu allan i’r ystafell ddosbarth .

⇒ Un o’r elfennau mwyaf amlwg sy’n angenrheidiol ar gyfer dysgu iaith yw cael eich trochi yn yr iaith honno. Mae’n bwysig bod plant o oed cynnar yn clywed ac yn gweld yr iaith ac yn cael anogaeth i ddefnyddio’r iaith. Cefnogir rhieni/gofalwyr ac aelodau eraill o’r teulu i gyflwyno a defnyddio’r Gymraeg gartref a throsglwyddo’r Gymraeg i’w plant. Bydd yr Uned Gofal Plant yn parhau i hyrwyddo gwersi Cymraeg Camau i’r sector gofal plant lle mae’r mwyafrif yn fusnesau preifat / sefydliadau gwirfoddol wedi’u rheoli gan gwirfoddolwyr. Bydd yr Uned yn cydweithio’n agos gydag aelodau CWLWM a Dechrau’n Deg er mwyn cefnogi staff, y gweithlu a phlant i ddechrau’r daith o addysg cyfrwng Cymraeg. Gwelwn drochi cynnar effeithiol yn ein holl ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn dilyn ymgynghoriad bydd ysgolion trosiannol 2 yn trochi dysgwyr yn y dysgu sylfaen ar raglen dreigl o Fedi 2024 ymlaen. Mae’r ysgolion Uwchradd a gydol oed Categori 3 a 3P (a’r Uwchradd) hefyd yn darparu trochi a gloywi er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Os bydd teuluoedd yn symud i’r ardal ceir system strategol o ganolfannau iaith cynradd (3 lleoliad) ar gyfer y newydd-ddyfodiaid hyn. (Ceir hefyd gyfleon ychwanegol i drochi ein hwyr-ddyfodiaid yn ein canolfannau iaith.)

# THEMA STRATEGOL 1

Cyngor Sir CEREDIGION County Council




Caru · Love Ceredigion

- ⇒ Drwy gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg rydym yn anelu i sicrhau bod cyfleon digonol o addysg cyfrwng Cymraeg ar gael ymhob ysgol o fewn y Sir, ynghyd â chefnogi medrau ein disgyblion er mwyn iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn rhugl a hyderus a hynny mewn gwahanol sefyllfaoedd. Bydd y gwaith ynghlwm wrth y CSGA yn mynd i'r afael â chynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu'n Gymraeg, fe fydd hyn yn sicrhau bod mwy o blant yn defnyddio'r iaith wrth symud o'r ysgol gynradd i'r uwchradd ynghyd â mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- ⇒ Mae gweithredu fframwaith cenedlaethol Siarter Iaith Ysgolion yn dylanwadu ar ddefnydd iaith disgyblion tu allan i'r ystafell ddosbarth ac yn holl bwysig wrth i'n plant a'n pobl ifanc barhau i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol ac wedi iddynt adael addysg ffurfiol. Byddwn yn cefnogi Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg mewn Addysg ac yn cyd-weithio gydag amrywiaeth o ran-ddeiliaid i sicrhau mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ei ddefnyddio'r mewn gwahanol gyd-destunau. Byddwn yn cydweithio gyda'r mudiadau hynny sy'n cynnig darpariaeth cymdeithasol yn y Gymraeg. Byddwn hefyd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar wasanaeth hamdden a gwasanaeth ieuenctid y sir, sydd a'r gallu i gynnig cyfleoedd arbennig i blant glywed a defnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch anffurfiol a hwyliog.
- ⇒ Mae gan ddarparwyr addysg ôl-orfodol ddyletswydd i hyrwyddo gwerth yr iaith fel sgil ac ased gwerthfawr wrth i bobl ifanc fynd ati i ddewis llwybr gyrfa. Mae dylanwadu yn gynnar ar blant a phobl ifanc bod yr iaith yn sgil pwysig yn help iddynt ar gyfer hyfforddiant a byd gwaith. Mae'r dysgu iaith yn datblygu elfennau gwybyddol, perthyn a hunaniaeth yn ogystal â'r sgil sy'n arwain at gyflogadwyedd.

# DYSGU – beth fydd yn cael ei wneud

## 1 Codi ymwybyddiaeth ymysg rhieni ynghylch manteision trosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd

| Camau Gweithredu | Pwy fydd yn cymryd rhan |
|---|---|
| Darparu gwybodaeth a chyngor uniongyrchol i rieni ynghylch gwerth y Gymraeg a'r gefnogaeth sydd ar gael. Dosbarthiad eang o lyfryn gwybodaeth 'Byw a Bod' a 'Cymraeg i Rieni'. Ail-gyhoeddi'r llyfryn gwybodaeth 'Byw a Bod' a diweddaru fideo 'Byw a Bod'. | Gwasanaeth Ysgolion, Mudiad Meithrin (CWLWM), Uned Gofal Plant, Porth Cymorth Cynnar, Theatr Felinfach, Ymwelwyr Iechyd BIHDda |
| Hyrwyddo prosiect 'Cymraeg i Blant' i rieni Cymraeg a di-Gymraeg, a chefnogi'r prosiect er mwyn annog trosglwyddiad iaith o fewn yr aelwyd. Gwersi Cymraeg am ddim i rieni Cylch Aberystwyth ac Ysgolion T2 (yn ddibynnol ar grantiau). | Mudiad Meithrin (CWLWM), Prifysgol Aberystwyth, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Porth Cymorth Cynnar, Ymwelwyr Iechyd, Gwasanaeth Ysgolion |
| Cynnal sesiynau cymdeithasol i deuluoedd, er mwyn annog y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref ymysg rheini sydd eisoes yn gallu siarad Cymraeg ond sydd ddim yn ei defnyddio. | Menter Iaith Cered, Theatr Felinfach, Mudiad Meithrin |

## 2 Cynnal cyfleoedd gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg

| Camau Gweithredu | Pwy fydd yn cymryd rhan |
|---|---|
| **Cefnogi darpariaeth gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar : Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin a Grwpiau Chwarae er mwyn cefnogi rhieni a phlant i ddechrau'r daith o addysg cyfrwng Cymraeg trwy'r dull trochi.** | CWLWM, Uned Gofal Plant, Gwasanaeth Ysgolion, Gwarchodwyr Meithrinfeydd Dydd, Canolfannau Teulu, Gweithwyr Teulu, Grwpiau Rhieni, Clybiau ar ôl ysgol a phlant/ Cylchoedd Ti a Fi |
| Cydweithio er mwyn hyrwyddo cyrsiau gofal plant cyfrwng Cymraeg achrededig; a chynyddu nifer o brentisiaethau yn y sector, er mwyn ehangu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn y sector gofal plant. | Mudiad Meithrin, Urdd Ceredigion, Coleg Ceredigion, Hyfforddiant Ceredigion |
| Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwerth y Gymraeg ymhlith y sector gofal plant gan gynnwys clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol anghofrestredig gan eu cefnogi i ddarparu gwasanaeth ieithyddol briodol. Hyrwyddo'r cwrs Cymraeg Camau, sydd ar gael yn rhad ac am ddim. | Uned Gofal Plant, Gwasanaeth Ysgolion, CWLWM, Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol |

## 3 Cefnogi amcanion CSGA, er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus

| Camau Gweithredu | Pwy fydd yn cymryd rhan |
|---|---|
| Cefnogi gweithrediad blaenoriaethau CSGA wrth ddatblygu'r 7 deilliant - gan gynnwys dysgu pob disgybl yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg tan 7 oed a chyfrannu at weledigaeth Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. | Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes |
| Cefnogi gweithredu Siarter Iaith Ysgolion Ceredigion, gyda'r nod penodol o annog defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ymysg disgyblion Ceredigion. (Cysylltiad gyda Deilliant 5 CSGA). | Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes |
| Datblygu'r gweithlu addysg er mwyn cynyddu'r nifer sy'n hyderus i ddysgu drwy gyfrwng Gymraeg drwy greu adnoddau e.e podlediadau ar gyfer athrawon. | Gwasanaeth Ysgolion, Coleg Ceredigion, Hyfforddiant Ceredigion, Canolfan Dysgu Cymraeg a'r Cynlluniau Sabothol, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Hyrwyddo Canolfannau Trochi Iaith ar gyfer hwyrddyfodiaid gan sicrhau eu bod yn integreiddio i addysg cyfrwng Cymraeg. | Gwasanaeth Ysgolion |

| **4** | **Sicrhau bod gallu yn y Gymraeg yn cael ei werthfawrogi fel sgil gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a'r byd gwaith ymysg myfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch** |
|---|---|

| **Camau Gweithredu** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
|---|---|
| Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ôl 16 oed gan sicrhau bod dewis eang priodol, dwyieithog a theg o bynciau yn cael ei gynnig i ddysgwyr, sy'n diwallu eu hanghenion ac yn datblygu eu sgiliau ac yn cefnogi anghenion yr economi leol. | Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Aberystwyth, Hyfforddiant Ceredigion, Coleg Ceredigion |
| Cyd-weithio i ddatblygu adnodd ar gyfer ei ddefnyddio i hyrwyddo gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer y gweithle. Creu delwedd o Geredigion fel lle braf i fyw, ond hefyd pwysigrwydd diwylliant a iaith o fewn y byd gwaith. Prosiect Profi: ffilmiau gyda chyflogwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg. | Gwasanaeth Ysgolion, Swyddog Polisi Iaith, Y Gwasanaeth Diwylliant ,Y Ganolfan Byd Gwaith. Gwasanaeth Ieuenctid |
| Hyrwyddo cynnig Llywodraeth Cymru i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 oed. | Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Aberystwyth, Coleg Ceredigion, Hyfforddiant Ceredigion, Gwasanaeth Ieuenctid |
| Gweithio gyda'n prifysgolion lleol gyda'r nod o weld ein sir y dod yn un o'r canolfannau ar gyfer hyfforddiant gofal iechyd yng Nghymru yn ogystal â graddau nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth. | Bwrdd Gwasanaethau Lleol, Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |

| **5** | **Codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr sydd a chyswllt a phlant a phobl ifanc o'r angen i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg (cysylltiad a Thema 3: Perthyn ac yn cefnogi Deilliant 5 CSGA)** |
|---|---|

| **Camau Gweithredu** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
|---|---|
| Cynnal is-grŵp Normaleiddio'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc er mwyn rhoi sylw i'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg **ac arferion defnydd. Dadansoddi gwasanaethau a mapio'r ddarpar-iaeth bresennol er mwyn nodi bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd amrywiol a blaenoriaethu meysydd ar gyfer gwella.** | Gwasanaeth Hamdden, Gwasanaeth Ieuenctid, Urdd Gobaith Cymru, Ffermwyr Ifanc, Theatr Felin-fach, Menter Iaith Cered, Arad Goch |
| Annog arweinwyr clybiau cymdeithasol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg gan ddylanwadu yn gadarnhaol ar ddefnydd iaith plant a phobl ifanc; yn cynnwys y Gwasanaeth Canolfannau Lles a'r Gwasanaeth Ieuenctid. (Cyfle i bob plentyn yn y sir ddysgu nofio drwy gyfrwng y Gymraeg). Gwneud defnydd o hyfforddiant Cadernid Iaith. | Gwaith drwy is-grŵp Normaleiddio'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc |

# DYSGU - sut fyddwn yn mesur cynnydd?

- Cynnal a chefnogi y lleoliadau cyfrwng Cymraeg gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar, er mwyn galluogi plant bach i gaffael yr iaith Gymraeg
- Monitro nifer y newydd-ddyfodiaid sydd â phlant oedran ysgol gynradd sy'n derbyn addysg trochi iaith
- Cynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc ar gyfer cymhwyster iaith gyntaf
- Cynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd sy'n astudio pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg bellach cyfrwng Cymraeg, ac yn benodol cyrsiau gyrfa mewn iechyd a gofal
- Monitro nifer o'r gweithlu addysg sy'n derbyn hyfforddiant i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau iaith**; a'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg o ganlyniad**
- Mwy o weithgareddau hamdden a chymdeithasol i blant a phobl ifanc yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg






# byw

*Mae cartre, mae cyfle, mae gwyliau a gwaith*

*yn rhan o'r olygfa o'r caeau i'r traeth*

*Ceri Wyn*

# THEMA STRATEGOL 2

Cyngor Sir CEREDIGION County Council



Byw

Caru·Love Ceredigion

## Yr hyn yr ydym ni eisiau ei gyflawni

- Mwy o wasanaethau cyfrwng Cymraeg o ansawdd ar gael.
- Mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd.
- Rhoi gwerth ar sgiliau iaith y gweithlu.
- Cynyddu'r niferoedd sy'n derbyn cefnogaeth i ddysgu neu datblygu sgiliau iaith Gymraeg mewn gweithleoedd.

# THEMA STRATEGOL 2



Byw

⇒ Byddwn yn sicrhau bod anghenion defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg yn ganolog i'n cynlluniau, a'n bod hefyd yn gweithio i annog ein trigolion i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg hynny sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn golygu cynllunio ein gwasanaethau mewn ffordd sy'n golygu nad oes unrhyw rwystr i ddefnyddio'r Gymraeg, a bod y gwasanaeth Cymraeg hwnnw yr un mor hwylus â'r gwasanaeth cyfatebol yn y Saesneg. Wrth drefnu ein gwasanaethau bydd y Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion Safonau'r Gymraeg.

⇒ Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein gweithlu yn deall pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn Gymraeg, yn enwedig gwasanaethau rheng flaen, a gwasanaethau gofal a lles. Byddwn yn sicrhau bod y dewis iaith hwnnw ar gael iddynt o'r cyswllt cyntaf drwy wasanaeth gofal cwsmer Clic Ceredigion.

⇒ Byddwn yn mynd i'r afael â gofynion Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau', ar gyfer gwella gwasanaethau gofal yn Gymraeg; gan ei gwneud yn angenrheidiol i ddarparu'r cynnig o'r cyswllt cyntaf ac i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth allweddol wrth gomisiynu gwasanaethau.

⇒ Bydd ein Gwasanaethau Gydol Oes yn gweithio'n galed i ddatblygu cydnerthedd cymunedau, ac i gynllunio gwasanaethau sy'n sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn hefyd yn golygu cydweithio gyda chyrff eraill drwy Fforwm Dyfodol Dwyieithog i ddatblygu dealltwriaeth a rhannu'r arfer gorau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau o ansawdd yn y Gymraeg.

# THEMA STRATEGOL 2



Byw

- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn un o’r cyflogwyr mwyaf yn y Sir, ac mae’n gallu darparu arweinyddiaeth a gosod esiampl gref o safbwynt datblygu’r iaith Gymraeg, gan hyrwyddo hunaniaeth gyfoethog ac unigryw y Sir. Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal cynlluniau bwriadus ynghylch sut y bydd yn rhoi cefnogaeth i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ganddo weithlu medrus sydd â’r hyder i ddefnyddio’u Cymraeg wrth eu gwaith o ddydd i ddydd; a hynny drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg wedi’u lleoli yn y rolau cywir.

- Mae potensial enfawr i ddysgu, gwella a defnyddio’r Gymraeg yn y gwaith, gan roi mwy o hyder i bobl yn eu sgiliau. Drwy fagu hyder yng nghyd-destun gwaith, gall pobl ddod yn fwy hyderus i ddefnyddio’r iaith yn y gymuned a’r cartref hefyd. Bydd y Cyngor yn adeiladu ar y sylfaeni sydd eisoes wedi’u gosod trwy ddefnyddio’r cynllun i weithio mewn partneriaeth gyda’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn rhan ariannu Tiwtor Cymraeg Gwaith. Drwy’r cynllun hwn, bydd yn galluogi’r Cyngor i ddarparu rhaglen eang ar gyfer cefnogi ein staff i gaffael sgiliau iaith, ynghyd â chodi eu hyder i allu ymwneud â’r cyhoedd.

- Mae tystiolaeth yn dangos bod unigolion sy’n gweithio i gyflogwr sy’n cefnogi defnyddio’r Gymraeg, yn llawer iawn mwy tebygol o ddefnyddio’r iaith eu hunain. Rydym felly am sicrhau bod y Cyngor yn gosod esiampl i sefydliadau eraill o fewn y Sir, drwy roi pwysigrwydd ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, ac yn sefydliad sy’n defnyddio’r iaith yn naturiol fel rhan o fywyd bob dydd.

# BYW – beth fydd yn cael ei wneud

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Sicrhau bod egwyddorion Safonau'r Gymraeg yn sail i'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau i'r cyhoedd, fel bod defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael gafael ar wasanaethau yn eu dewis iaith yn ddi-rwystr** | |
| **Camau Gweithredu** | | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| Gwella argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg, a bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg. Rhannu unrhyw arferion da gyda sefydliadau eraill ar draws y Sir drwy Fforwm Dyfodol Dwyieithog. | | Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog |
| Hyrwyddo'r *Cynllun Iaith Gwaith* Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Gwasanaethau Clic, a sicrhau bod gwasanaeth Gymraeg ar gael bob amser. | | Gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid |
| Cryfhau ymhellach y ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaeth gofal cymdeithasol er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith defnyddwyr drwy roi'r camau gweithredu a amlinellir yn Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru: 'Mwy na Geiriau' ar waith. | | Gwasanaethau Llesiant Gydol Oes, Bwrdd Iechyd Hywel Dda |
| Gwasanaethau CSC i osod hybu'r Gymraeg fel amcan yn y Cynlluniau Busnes, fel bod Uwch Swyddogion yn medru darparu tystiolaeth o'r gwaith a wneir i hybu defnydd o'r Gymraeg ac wrth gynllunio gwasanaeth-au Cyfrwng Cymraeg. Tystiolaeth gadarn ar gyfer Adroddiad Blynyddol Cydymffurfiaeth. | | Gwasanaeth Democrataidd, Gwasanaethau CSC |
| **7** | **Datblygu ymgyrchoedd i sicrhau bod trigolion Ceredigion yn deall bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor** | |
| **Camau Gweithredu** | | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| Datblygu ymgyrchoedd bwriadus sy'n hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg, fel bod mwy o drigolion yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn ysgrifenedig, ar lafar ac ar-lein. Hyrwyddo cyson o Siar-ter Cwsmer CSC. | | Swyddog Polisi Iaith CSC, Gwasanaeth y Wasg |
| Crynhoi gwybodaeth am y Gymraeg mewn un man ar wefan gorfforaethol y Cyngor, gan ei wneud yn hwylus i drigolion gael mynediad at y wybodaeth. Mae hyn yn cynnwys Safonau'r Gymraeg, Cymraeg yn y Gymuned – Menter Iaith Cered, Cymraeg mewn Addysg, Cymraeg mewn Busnes, Croeso i Geredigion a Dysgu Cymraeg. | | Swyddog Polisi Iaith CSC |
| **8** | **Gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y Cyngor, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i staff weithio yn Gymraeg a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle** | |
| **Camau Gweithredu** | | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| CSC i gyflawni Safonau Gweithredu, er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol e.e. Gwasanaeth AD cyfrwng Cymraeg; Cyfleoedd i godi hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Sicrhau bod systemau digidol y Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn hwyluso defnydd y Gymraeg ee system werthuso blynyddol, Ceri-net. | | Gwasanaeth Pobl a Threfniad-aeth |
| Adolygu Tudalen Iaith ar Waith, gan sicrhau bod adnoddau cymorth priodol ar gael yn hwylus i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg. | | Swyddog Polisi Iaith |
| Sefydlu arferion da o ran Cwrs Ymwybyddiaeth Iaith ar gyfer cyrff cyhoeddus ac edrych i weld a oes modd cynllunio a rhannu adnoddau gyda sefydliadau partner, er mwyn gwella ar yr hyn sydd ar gael yn barod. | | Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog |
| Datblygu holiadur ymchwil ar gyfer y gweithle–- er mwyn dadansoddi sut mae pobl yn dewis iaith / teimladau pobl at yr iaith yn y gweithle a pha gefnogaeth sydd angen. | | Swyddog Polisi Iaith, Gwasan-aeth Pobl a Threfniadaeth |

# BYW – beth fydd yn cael ei wneud


| 9 | Cynyddu cydnabyddiaeth bod y Gymraeg yn sgil gwerthfawr yn y gweithle |
|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| CSC i fonitro sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yn flynyddol i sicrhau trosolwg cywir o sgiliau Cymraeg mewnol. | Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth |
| Datblygu canllawiau er mwyn helpu rheolwyr recriwtio asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd neu wag. Ymgorffori canllaw recriwtio a'r Gymraeg yn rhan o Bolisi Recriwtio Corfforaethol y Cyngor. | Swyddog Polisi Iaith, Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth |
| Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol yn y gweithle, gan ddefnyddio diwrnodau penodol yn y calendr: Creu e-newyddlen i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Chymreictod e.e Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru ayyb. | Swyddog Polisi Iaith, Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth, Swyddfa'r Wasg, Menter Iaith Cered |
| Hyrwyddo gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, fel bod mwy o staff mewn ystod o gyrff ar draws Ceredigion yn medru cymryd mantais ar y cyfleoedd a gynigir dan y cynllun 'Cymraeg Gwaith'. | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgol Aberystwyth |

| 10 | Ystod eang o ddosbarthiadau Cymraeg ar gael i staff y Cyngor a sefydliadau partner |
|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| Trefnu digwyddiad / seremoni i wobrwyo dysgwyr yn flynyddol. Cynnwys gweithlu CSC a'r gweithlu addysg (cyrsiau sabothol), rheini sydd wedi gwneud ymdrech i ddysgu'r Gymraeg, gan gynnwys gweithwyr Gofal Plant drwy gynllun Camau. | Swyddog Polisi Iaith, Swyddog Cefn-ogi'r Gymraeg |
| CSC i gynnig hyfforddiant amrywiol i wella sgiliau iaith Cymraeg y gweithlu, a threfnu cyrsiau ar gyfer codi hyder i ddefnyddio'r Gymraeg. | Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth, Rhaglen Cymraeg Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol |
| CSC i wneud defnydd o gyrsiau ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod gan pob aelod o staff gwrteisi iaith sylfaenol (ALTE Lefel 1). Adolygiad o effeithiolrwydd lefelau ALTE fel adnodd i asesu sgiliau Cymraeg yn fewnol. | Swyddog Polisi Iaith, Rhaglen Cym-raeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cym-raeg Cenedlaethol, Adran Adnoddau Dynol |
| Darganfod cyfleoedd i hyrwyddo cyrsiau dysgu Cymraeg yn y gymuned ymysg rheini sy'n danfon eu plant i feithrinfeydd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg gan gynnwys 52 o fideos byr 'Cymraeg Cyflym' a 4 fideo 'Y Gymraeg a fi'. | Y Ganolfan Dysgu Cymraeg, Gwas-anaeth Ysgolion, Uned Gofal Plant, Gwasanaeth Y Wasg CSC |

# BYW - sut fyddwn yn mesur cynnydd?

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

- Adroddiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg Blynyddol, Cyngor Sir Ceredigion.
- Nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dewis defnyddio gwasanaethau'r Cyngor yn y Gymraeg.
- Nifer o staff y Cyngor sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg.
- Nifer o staff y Cyngor sy'n derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a'r dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- Nifer o unigolion sydd eto i gyrraedd yr ALTE sy'n ofynnol ar gyfer swyddi  h.y. nifer yr unigolion sydd angen ennill sgiliau iaith o fewn 2 flynedd.
- Mwy o gyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn  y gweithle, drwy fwrw ati i weithredu Pecyn y Gweithle Comisiynydd y Gymraeg.
- Nifer o staff sy'n derbyn y cyfle i ddysgu Cymraeg, neu'n gwella eu sgiliau iaith Gymraeg.



Cyngor Sir CEREDIGION County Council



## perthyn

*Siaradwn, fel teulu, iaith ein gilydd,*

*adrodd ein straeon a chreu o'r newydd*

*Ceri Wyn*

# THEMA STRATEGOL 3

Cyngor Sir CEREDIGION County Council



Perthyn

Caru·Love Ceredigion

## Yr hyn yr ydym ni eisiau ei gyflawni

- Cynnal gweithgarwch cymunedol cyfrwng Cymraeg byrlymus.
- Ymwybyddiaeth eang o werth y Gymraeg, a'i defnydd yn cynyddu.
- Cefnogi newydd ddyfodiaid i fod yn rhan o'r gymuned.
- Niferoedd sy'n mynychu rhaglenni 'Cymraeg i Oedolion' yn y gymuned yn cynyddu.
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg.

# THEMA STRATEGOL 3

Cyngor Sir CEREDIGION County Council



Perthyn

- Mae angen i iaith feddu ar werth cymdeithasol ac economaidd a chael ei defnyddio o’r herwydd. Byddwn yn cefnogi Menter Iaith Cered yn ei ymdrechion cynyddol i ddatblygu’r Gymraeg ar lefel gymunedol a chymdeithasol yng Ngheredigion. Drwy bartneriaethau a chydweithio mae Cered yn gweithio fel sbardun a hwylusydd o safbwynt cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn gymunedol.

- Rydym yn ymwybodol bod gan ein cynghorau tref a chymuned rôl genhadol bwysig i’w chwarae i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am werth y Gymraeg yn ein cymunedau. Bydd Menter Iaith Cered yn gweithio’n ddiwyd gyda Cynghorau Tref a Chymuned drwy gyflwyno Prosiect Croeso i Geredigion, fesul rhaglen dreigl, gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd hynny lle mae nifer uwch o newydd-ddyfodiaid. Nod y prosiect yw codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd defnyddio’r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw, drwy amlygu’r cyfleoedd sydd ar gael i gyfrannu a chefnogi’n lleol; ynghyd â chynorthwyo personau sy’n newydd i’r Sir, i ddeall sut mae’r Gymraeg yn gweu i fewn i fywyd diwylliannol a chymdeithasol y Sir.

- Bydd yna gyd-weithio agos gyda mudiadau eraill sydd yn gweithio er lles y Gymraeg, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Theatr Felinfach a Theatr Arad Goch er mwyn codi ymwybyddiaeth ein trigolion o’r holl gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol sydd ar gael ar draws y Sir, trwy gyfrwng y Gymraeg.

Caru·Love Ceredigion

# THEMA STRATEGOL 3

Cyngor Sir CEREDIGION County Council




Caru·Love Ceredigion

⇒ Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid sy'n rhan o Fforwm Dyfodol Dwyieithog, er mwyn rhannu negeseuon cadarnhaol am werth a phwysigrwydd y defnydd o'r Gymraeg ar draws y Sir. Byddwn yn defnyddio ein dylanwad i ddwyn perswâd ar drefnwyr digwyddiadau i roi gweledigaeth teg i'r iaith mewn digwyddiadau. Bydd rhoi statws i'r Gymraeg mewn digwyddiadau bach a mawr ar draws y Sir yn dangos i'r gymuned ehangach bod gwerth i'r iaith ymhob maes.

⇒ Mae prosiectau gwirfoddoli wrth wraidd y trydydd sector, ac mae cyfraniad gwirfoddolwyr yn galluogi sefydliadau i ddarparu gwasanaethau angenrheidiol, ar gyfer unigolion. Byddwn yn cydweithio gyda CAVO a Menter Iaith Cered, i gynnal ymgyrchoedd bwriadus i recriwtio gwirfoddolwyr ac i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i ddefnyddio sgiliau iaith Gymraeg. Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd mewn cymunedau ar draws y Sir; fel bod siaradwyr ar bob lefel, yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

⇒ Byddwn yn cefnogi Dysgu Cymraeg Ceredigion (Prifysgol Aberystwyth) yn eu hymdrechion cynyddol i ddysgu'r iaith yn ein cymunedau; ac fe fyddwn yn cyd-weithio i hyrwyddo digwyddiadau fel bod modd i ddysgwyr a siaradwyr llai hyderus o'r Gymraeg gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol.

⇒ Rydym am sicrhau bod yr iaith yn destun balchder a bod ein trigolion yn siaradwyr rhugl, yn ddysgwyr neu'n ddi-Gymraeg yn parchu'r defnydd o'r iaith frodorol. Rydyn ni am symud at y fan lle mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Ngheredigion.

# PERTHYN – beth fydd yn cael ei wneud

| 11 | Sicrhau ymwybyddiaeth eang trigolion Ceredigion o holl gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol sydd ar gael o fewn y Sir |
|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| CSC i barhau i roi cefnogaeth i Eisteddfodau Lleol a Sioeau Amaethyddol y Sir drwy'r Cynllun Grantiau Cymunedol, er mwyn codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo digwyddiadau traddodiadol ac ieithyddol o bwys o fewn y Sir. | Gwasanaeth Grantiau Cymunedol CSC |
| Parhau i ddefnyddio'r Cynllun Grant Cymunedol i gefnogi: mudiadau a digwyddiadau cymunedol sy'n gwneud defnydd o'r Gymraeg neu sy'n ymrwymo i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg. | Gwasanaeth Grantiau Cymunedol CSC |
| Cefnogi gweithgareddau plant a ieuenctid sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â rhan-nu gwybodaeth am weithgareddau gan fudiadau e.e. Urdd Ceredigion, C.Ff.I. Ceredigion, Gwasanaeth Ieuenctid, Menter Iaith Cered, Theatr Felinfach, Theatr Arad Goch, Ceredigion Actif. | Aelodau ffrwd gwaith 'DYSGU' |
| Cefnogi sefydliadau diwylliannol a chelfyddydol i ddarparu rhaglen ddychmygus o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn eu rhaglenni gwaith. | Gwasanaeth Diwylliant |
| Cefnogi cais Aberystwyth i ddod yn Ddinas Llenyddiaeth UNESCO. | Gwasanaeth Economi ac Adfywio, Gwasanaeth Diwylliant |
| Cefnogi gwaith Bro 360 **a phapurau Bro,** er mwyn marchnata digwyddiadau diwylliannol a chymdeith-asol cyfrwng Cymraeg. Annog y cyfleoedd i rannu straeon o bwys yn lleol. | Holl bartneriaid Fforwm Dyfodol Dwyieithog |
| **12** | **Cynnal statws a bri'r Gymraeg o fewn cymunedau Ceredigion, gan hyrwyddo ei gwerth a'r defnydd ohoni** |
| **Camau Gweithredu** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| Adeiladu ar brosiectau megis Gorwel a Gwreiddiau i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymraeg gan weithio mewn modd sy'n pontio'r cenedlaethau. | Menter Iaith Cered, Theatr Felinfach |
| Sefydlu rhwydwaith ar gyfer trefnwyr gigs cerddorol yng Ngheredigion, er mwyn cydweithio a rhannu arfer da. | Menter Iaith Cered |
| Ymchwilio i'r syniad o gynnal Gŵyl Diwylliannol yng Ngheredigion: sef Gŵyl flynyddol i ddathlu celfydd-ydau a diwylliant Cymraeg y Sir. | Fforwm Dyfodol Dwyieithog |
| Cefnogi Gorymdeithiau Dydd Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth, Llanbed, Aberteifi, Tregaron ac annog dath-liadau tebyg mewn ardaloedd eraill. e.e Llandysul. | Menter Iaith Cered, Fforwm Dyfodol Dwyieithog |
| Defnyddio diwrnodau penodol yn y calendr i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn gymunedol ac mewn gweithleoedd e.e. Diwrnod Shwmae, Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Ddewi. | Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog, Gwasanaeth y Wasg CSC |
| Datblygu adnodd er mwyn annog rhanddeiliaid/trefnwyr digwyddiadau mawr i sicrhau gwelediad y Gymraeg mewn unrhyw ddigwyddiad mawr/ ymgyrch gyhoeddus. | Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog |

# PERTHYN – beth fydd yn cael ei wneud

| | |
|---|---|
| **13** | **Cynyddu cyfleoedd i bobl ddysgu ac ymarfer yr iaith yn eu cymunedau a'u cefnogi i fod yn rhan o'r gymuned ddwy-ieithog** |

| Camau Gweithredu | Pwy fydd yn cymryd rhan |
|---|---|
| Cydweithio â Phrifysgol Aberystwyth i hyrwyddo ei ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion, gan gynnwys: Cyrsiau cymunedol prif ffrwd yn y gymuned, Rhaglen Integredig Cymraeg i'r Teulu, gan ganolbwyntio ar ardaloedd Cei Newydd ac Aberystwyth i gyd-fynd gyda newid iaith ysgolion fel sydd wedi'i osod yn y CSGA; rhaglen o weithgareddau er mwyn creu cymdeithas dysgwyr a siaradwyr newydd; Cyrsiau Cymraeg Gwaith a Hyrwyddo cyrsiau Cymraeg i ffoaduriaid. | Dysgu Cymraeg i Oedolion: Prifysgol Aberystwyth, Dysgu Bro |
| Menter Iaith Cered i gynnal amrywiaeth o gyfleoedd i bontio siaradwyr Cymraeg newydd â siaradwyr Cymraeg; gan gynnwys teithiau cerdded, boreau coffi, gwyliau iaith ayyb. | Menter Iaith Cered |
| Gweithio gyda cymunedau er mwyn adnabod heriau ieithyddol a datblygu cynlluniau a phrosiectau pwrpasol e.e. Hapus i Siarad. **Hyrwyddo mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl i gymryd rhan yng nghynllun mentora anffurfiol 10 awr — Cynllun 'Siarad.'** | Menter Iaith Cered, Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol |
| Cynnal a chefnogi gwyliau sydd yn hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg i siaradwyr newydd. | Menter Iaith Cered, Fforwm Dyfodol Dwyieithog |

| | |
|---|---|
| **14** | **Cyd-lynu prosiect er mwyn mynd i'r afael â chymhathu mewnfudwyr fel eu bod yn cymryd rhan mewn cymunedau dwyieithog y Sir, ac yn deall pwysigrwydd defnydd o'r Gymraeg** |

| Camau Gweithredu | Pwy fydd yn cymryd rhan |
|---|---|
| Prosiect Croeso i Geredigion: Parhau i hyrwyddo adnoddau gyda'r nod o'u defnyddio i gymhathu pobl sy'n symud i'r Sir, er mwyn rhoi gwybod y defnydd o'r Gymraeg o fewn y Sir, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth am ddiwylliant cyfoethog y Sir. Gweithio gyda 3 ardal beilot, i ddatblygu cynllun dosbarthu adnoddau 'Croeso i Geredigion', a chreu rhaglen weithredu wedi'i deilwra i anghenion yr ardal leol. | Cydweithio rhwng Swyddog Polisi Iaith y Cyngor a Menter Iaith Cered, 3 Cyngor Cymuned fel ardal peilot |
| Datblygu canllawiau sy'n cynnig dulliau ymarferol o gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn Pwyllgorau Cyngor Cymuned a Thref, gan eu cefnogi yn eu rôl genhadol o ran hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am werth y Gymraeg o fewn cymunedau Ceredigion. | Swyddog Polisi Iaith CSC |

| | |
|---|---|
| **15** | **Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd cynyddol i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg** |


| Camau Gweithredu | Pwy fydd yn cymryd rhan |
|---|---|
| Byddwn yn annog CAVO, i gynnal ymgyrchoedd bwriadus i recriwtio gwirfoddolwyr, ac i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i ddefnyddio sgiliau iaith Gymraeg. | CAVO, Menter Iaith Cered |

# Perthyn - sut fyddwn yn mesur cynnydd?

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

- Nifer o aelodau Urdd Ceredigion a Ffermwyr Ifanc Ceredigion, ac nifer o achrediadau.
- **Nifer o gyfleoedd Cymraeg mewn prosiectau a rhaglenni celfyddydol, ynghyd** â chyfranogiad.
- Nifer o grantiau cymunedol CSC sydd wedi'u rhannu, ac sy'n cynnwys defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r amodau derbyn grant.
- Nifer o gardiau post Croeso i Geredigion sy'n cael eu dosbarthu, a nifer yr ymweliadau ag adnoddau Pecyn Croeso Ceredigion oddi ar wefan y Cyngor.
- Nifer sy'n dysgu Cymraeg mewn dosbarthiadau cymunedol.
- Nifer o wardiau etholiadau sydd a dros 40% o'u poblogaeth yn siarad Cymraeg.
- Nifer y gweithgareddau a hwylusir gan Menter Iaith Cered mewn cymunedau, a'r nifer sy'n mynychu.






## llwyddo

*Mae modd aros gartre a mentro'r un pryd:*

*ar garreg y drws y mae'r gorwel o hyd.*

*Ceri Wyn*

# THEMA STRATEGOL 4

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Llwyddo

Caru Love Ceredigion

## Yr hyn yr ydym ni eisiau ei gyflawni

- Holl benderfyniadau polisi y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd y Gymraeg.
- Cynnal economi ffyniannus sy’n rhoi gwerth ar y Gymraeg ac ar Sgiliau Cymraeg.
- Cynnal polisi cynllunio defnydd tir sy’n cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg.
- Cyflenwad digonol o dai fforddiadwy fel bod pobl yn medru aros yn eu cynefin a pharhau i gyfrannu at fywiogrwydd yr iaith Gymraeg.
- Manteisio ar dechnoleg i hwyluso defnyddio’r Gymraeg.

# THEMA STRATEGOL 4




⇒ Heb os, fe fydd y Gymraeg yn cael ystyriaeth deg o fewn penderfyniadau a pholisïau'r Cyngor. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod asesiadau effaith ar unrhyw gynigion neu bolisïau newydd yn ystyried yr effeithiau posib ar allu ein trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Ein nod yma yw cyfeirio ein hadnoddau at y meysydd hyn gan ailfywiogi'r economi lleol a chreu amgylchedd ffyniannus iach, diogel a fforddiadwy lle y gall trigolion Ceredigion lwyddo a ffynnu.

⇒ Rydym wedi ymrwymo i weithio'n galed i ddod ag adferiad economaidd a llwyddiant i Geredigion. Byddwn yn parhau i symud Bargen Twf Canolbarth Cymru yn ei blaen er mwyn gwireddu manteision y buddsoddiad o £110m yn economi canolbarth Cymru. Mae Strategaeth Economi Ceredigion yn mynd i'r afael â rhoi hwb i'r economi yn lleol, drwy adnabod â datblygu cyfleoedd i'n trigolion a'n mentrau dyfu a ffynnu yng Ngheredigion. Rydym yn dymuno bod pobl ifanc sydd am aros yng Ngheredigion, yn ogystal â'r rhai a allai fod eisiau dychwelyd i fyw a gweithio yma yn gweld Ceredigion fel lle llawn cyfleoedd. Drwy hyn gallwn greu cymunedau bywiog lle gall ein diwylliant a'n iaith ffynnu.

⇒ Cyfrwng cymdeithasol yw iaith ac i iaith ffynnu mae angen i'r gymdeithas y mae'n gyfrwng mynegiant iddi hefyd ffynnu. Mae gwaith a tai yn ddwy agwedd allweddol i hyfywedd unrhyw gymdeithas gynaliadwy, ac yn y cyswllt hwn mae Ceredigion yn sir lle mae modd gweithio, a byw'n lleol.

# THEMA STRATEGOL 4



Llwyddo

Caru·Love Ceredigion

- Yn rhan allweddol o gefnogi'r economi leol, bydd gweithrediad rhaglen ARFOR 2, a fydd yn adeiladu ar waith a wnaed eisoes. Mae ARFOR yn fenter ar y cyd gan Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn, sy'n edrych ar ddefnyddio mentergarwch a datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg, a thrwy hynny cynnal yr iaith.

- Byddwn hefyd yn cydweithio â Chymdeithasau Tai lleol ynghyd â mathau eraill o gynlluniau tai fforddiadwy i gynyddu ein stoc o dai cymdeithasol i ddiwallu anghenion pobl leol. Yn ogystal, bydd y Cynllun Tai Cymunedol yn cael ei weithredu i gefnogi llwybr newydd at berchnogaeth tai ar gyfer preswylwyr cymwys yng Ngheredigion. At hyn, bydd y Polisi Cynllunio a Defnydd Tir yn rhoi sylw i ddynameg ac anghenion cymunedau lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

- Mae technoleg Cymraeg yn chwarae rôl bwysig wrth gynyddu hyder a'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y Cyngor yn ogystal â chyrff eraill yn edrych am gyfleodd cynyddol i gynnwys y Gymraeg mewn technoleg, er mwyn cyflwyno'r Gymraeg mewn dull hwylus a syml yn rhan o unrhyw wasanaethau digidol.

- Bydd busnesau a sefydliadau yn rhoi llwyfan amlwg i'r Gymraeg yn eu gweithgarwch ac yn eu cyfeirio at gynllun Cymraeg mewn Busnes, Comisiynydd y Gymraeg a Menter Iaith Cered. Bydd rhan o hyn yn cynnwys rhoi pwyslais ar y Gymraeg fel iaith gwaith, ac i godi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg fel sgil ac adnodd pwysig wrth recriwtio.

# LLWYDDO: beth fydd yn cael ei wneud

| 16 | Sicrhau bod holl benderfyniadau polisi y Cyngor yn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg (effeithiau cadarnhaol ac effeithiau negyddol) |
|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| Cydweithio gyda'r Gwasanaeth Polisi ac Ymchwil i sicrhau bod pob Asesiad Effaith Integredig (AEI) yn ystyried effaith y penderfyniad ar y defnydd o'r Gymraeg.<br>Datblygu canllawiau o ran sut i asesu effaith ar y Gymraeg yn effeithiol. | Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad, Swyddog Polisi Iaith |
| Dadansoddi a chyhoeddi data Cyfrifiad o fewn y Sir; yn dilyn hynny Strategaeth Hybu'r Gymraeg i adnabod a sefydlu ymyraethau a chynlluniau bwriadus i gynyddu defnydd y Gymraeg ar draws y Sir. | Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad, Swyddog Polisi Iaith |

| 17 | Cefnogi Strategaeth Economi Ceredigion i sicrhau gwelediad amlwg i'r Gymraeg mewn unrhyw gynlluniau |
|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| Rhannu arfer da ymysg **busnesau a hybu manteision dwyieithrwydd, ynghyd â'r buddiannau ynghlwm wrth gynnig gwasanaeth yn Gymraeg.** | Gwasanaeth Economi ac Adfywio, Menter Iaith Cered, Prifysgol Aberystwyth |
| Sicrhau bod gwerth y Gymraeg, ei defnydd a'u chynaliadwyedd yn ffactorau creiddiol o weithgareddau Cynllun Cynnal y Cardi. | Gwasanaeth Economi ac Adfywio, Swyddog Polisi Iaith |
| Cefnogi amcanion strategol Cynllun Arfor, i dreialu dulliau arloesol o hybu entrepreneuriaeth, twf busnes, cydnerthedd cymunedau a'r iaith Gymraeg. | Gwasanaeth Economi ac Adfywio, Swyddog Polisi Iaith, Menter Iaith Cered |
| Sicrhau bod unrhyw brosiectau drwy raglen grant *Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi* yn rhoi'r sylw amlwg i weledid y Gymraeg. | Swyddog Polisi Iaith, Gwasanaeth Economi ac Adfywio |
| CSC i gynnal Polisi Caffael er mwyn rhoi gwerth ar y Gymraeg, gan sicrhau bod gofynion ynghylch y Gymraeg yn cael ei ystyried a'i gynnwys pan yn briodol mewn unrhyw gontract, tendr neu gytundeb cyfreithiol. | Gwasanaeth Cyllid a Chaffael |
| Datblygu llwybr gyrfa ar gyfer ôl 16 ar draws gwasanaethau CSC, gan gynnwys cyfleodd o ran profiad gwaith, gwirfoddoli, hyfforddiant a **phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg.** | Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes, Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth |
| Sicrhau lle y Gymraeg yn rhan o'r Buddsoddiad Bargen Dwf a Tyfu Canolbarth Cymru. | Gwasanaeth Economi ac Adfywio |
| Cefnogi Prosiect Tir Glas Prifysgol Drindod Dewi Sant, ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd busnes cyfrwng Cymraeg. | Prifysgol y Drindod Dewi Sant |
| Parhau i ddarparu a datblygu cefnogaeth dechnolegol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg h.y. Meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg, apiau / geiriaduron. Rhannu unrhyw arfer da. | Fforwm Dyfodol Dwyieithog |
| Ymchwilio i'r posibilrwydd o gyd-weithio gydag adrannau ymchwil y Brifysgol er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o arferion trigolion Ceredigion wrth ddefnyddio'r Gymraeg, ac i fedru canfod ffyrdd newydd o ddylanwadu ar arferion iaith. | Swyddog Polisi Iaith, Prifysgol Aberystwyth |

# LLWYDDO: beth fydd yn cael ei wneud

| 18 | Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol i alluogi mwy o bobl ifanc i adeiladau cartref am oes |
|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| Hyrwyddo cynaliadwyedd y Gymraeg trwy gyfrwng gweithdrefnau cynllunio y Cynllun Datblygu Lleol:<br>• Cynnal ac adolygu y Canllawiau Cynllunio Atodol: Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg<br>• Cryfhau'r cymal i godi arwyddion a hysbysiadau dwyieithog ar gyfer datblygiadau a busnesau<br>• Cynnal astudiaethau effaith ieithyddol gyflawn ynghlwm wrth bob cam o ddatblygu'r Cynllun Newydd | Y Gwasanaeth Cynllunio |

| 19 | Cynyddu argaeledd tai fforddiadwy fel bod pobl yn medru aros yn eu cynefin a pharhau i gyfrannu at fywiogrwydd yr iaith Gymraeg |
|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| Darparu ystod eang o Opsiynau Tai Fforddiadwy o fentrau ar gyfer rhentu neu berchen tŷ. Sicrhau bod **Ceredigion** yn parhau i gynnal polisi o hyrwyddo tai fforddiadwy ar sail cysylltiad lleol. | Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar, Y Gwasanaeth Cynllunio |
| Parhau i fynd i'r afael a materion ail gartrefi, perchnogaeth tai haf, a throsi cartrefi preswyl i dai gwyliau drwy geisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth o dan y Ddeddf Cynllunio a'r Gwasanaethau Trethi. Cefnogi'r gwaith o osod trothwy uchaf ar nifer y yr ail dai a thai gwyliau mewn ardal benodol. | Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar, Y Gwasanaeth Cynllunio, Cyllid a Chaffael |
| Datblygu Cynllun Tai Cymunedol, er mwyn helpu pobl i gwrdd â'u hanghenion tai fforddiadwy yn ei cymunedau lleol trwy greu llwybr at berchnogaeth cartref. | Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar |
| Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg lleol drwy weithredu polisi enwi a rhifo strydoedd CSC. Sicrhau bod enwau strydoedd a datblygiadau newydd yn un uniaith Gymraeg (mae hyn i gynnwys yr enw answyddogol a ddefnyddir ar gyfer marchnata rhagarweiniol ac enw swyddogol terfynol y datblyg-iad.) Annog y defnydd o enwau gwreiddiol a hanesyddol ar enwau tai. | Gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid a TGCH, CSC |

| 20 | Sicrhau bod y Cyngor ynghyd â sefydliadau partner yn chwarae eu rhan i sicrhau bod yr iaith wrth wraidd arloesedd technolegol i alluogi'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol |
|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** |
| Gwasanaeth TG CSC a chyrff eraill i sicrhau bod technoleg ac adnoddau iaith yn parhau i ddatblygu er mwyn cryfhau'r seilwaith ieithyddol; mae hyn yn cynnwys sefydlu'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf mewn unrhyw system TG newydd. | Gwasanaeth TG |
| Buddsoddi mewn technoleg glyfar i ddatblygu gwasanaethau ac i fod yn sail i arferion y dyfodol. | Porth Cymorth Cynnar |
| Parhau i ddarparu a datblygu cefnogaeth dechnolegol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i'w gall-uogi i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg h.y. pecyn Cysgliad, apiau / geiriaduron. Rhannu unrhyw arfer da. | Fforwm Dyfodol Dwyieithog |
| Ymchwilio i'r posibilrwydd o gyd-weithio gydag adrannau ymchwil y Brifysgol er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o arferion trigolion Ceredigion wrth ddefnyddio'r Gymraeg, ac i fedru canfod ffyrdd new-ydd o ddylanwadu ar arferion iaith. | Swyddog Polisi Iaith<br>Prifysgol Aberystwyth<br>Prifysgol y Drindod Dewi Sant |


# LLWYDDO - sut fyddwn yn mesur cynnydd?

- Nifer o asesiadau effaith sydd wedi ystyried effaith ar y Gymraeg.
- Nifer y busnesau sy'n derbyn cyngor ar gynyddu defnydd y Gymraeg mewn busnes drwy'r cynllun ARFOR 2; **a'r nifer sy'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg o ganlyniad.**
- Nifer y busnesau yn arddangos arwyddion iaith gwaith a deunyddiau hyrwyddo'r Gymraeg o fewn eu busnes, drwy ymgyrch wedi ei thargedu.
- Nifer o gynlluniau economaidd bwriadus sy'n cyfrannu at gynyddu defnydd y Gymraeg ac sy'n cael eu cefnogi drwy Gynllun ARFOR 2.
- **Nifer y cynlluniau prentisiaethau cyfrwng Cymraeg mewn gweithleoedd ar draws y Sir.**
- Nifer yr ymgeiswyr cymwys sydd a chysylltiad lleol ar gyfer eiddo rhentu cymdeithasol, tai cymunedol, a chartrefi fforddiadwy.
- Y defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg yn cynyddu.



# GWEITHREDU'R STRATEGAETH

- Rydym am weld Ceredigion fel man lle mae modd dysgu, byw, perthyn a llwyddo drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn unol â hynny rydym wedi gosod nifer sylweddol o feysydd gwaith cysylltiol, lle mae cyfle gan y Cyngor a'i bartneriaid i weithredu er mwyn cynnal y defnydd o'r Gymraeg.
- Bydd llwyddiant y Strategaeth yn gydweithrediad rhwng nifer o gyrff cyhoeddus a sefydliadau, er mwyn ceisio cynnal ac ehangu'r defnydd o'r iaith ym mhob agwedd o fywyd y sir. Er mwyn medru dylanwadu a monitro gweithrediad y Strategaeth byddwn yn parhau i gynnal Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. At hyn byddwn yn cynnal strwythur o grwpiau strategol er mwyn mynd i'r afael gyda'r meysydd gwaith penodol (gweler strwythur pwyllgorau isod).
- Cyfrifoldeb y Fforwm Dyfodol Dwyieithog ynghyd a'r grwpiau strategol yw i fonitro cynnydd Cynllun Hybu'r Gymraeg. Bydd y Fforwm Dyfodol Dwyieithog hefyd yn manteisio ar y cyfle i rannu gwybodaeth, cydlynu ymdrechion ac adnabod cyfleoedd pellach i gydweithio. Bydd y Fforwm yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn, ac yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros y Gymraeg a Diwylliant.
- Bydd adroddiadau ar weithrediad y Strategaeth yn cael eu hadrodd at sylw Pwyllgor Iaith y Cyngor, gydag argymhellion yn cael eu cynnig i Gabinet y Cyngor ar gyfer eu cymeradwyo. Bydd adroddiadau cynnydd hefyd yn cael eu rhannu gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.



# Aelodaeth Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion

- **Cyngor Sir Ceredigion**: gan gynnwys:

Aelod Cabinet dros y Gymraeg a Diwylliant (Cadeirydd), Swyddogion yn cynrychioli: Y Gwasanaeth Democrataidd, Tîm Datblygu'r Gymraeg, Gwasanaeth Addysg Ceredigion, Uned Gofal Plant, Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion, Clic Ceredigion a swyddogion perthnasol eraill yn ôl y galw.

- **Barcud**
- **Bwrdd Iechyd Hywel Dda**
- **Canolfan Byd Gwaith**
- **CAVO**
- **Cered (Menter Iaith)**
- **Coleg Ceredigion**
- **Cwmni Iaith**
- **Cyfoeth Naturiol Cymru**
- **Ffermwyr Ifanc Ceredigion**
- **Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru**
- **Heddlu Dyfed Powys**
- **Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
- **Llywodraeth Cymru**
- **Mudiad Meithrin**
- **Prifysgol Aberystwyth**
- **Prifysgol y Drindod Dewi Sant**
- **Theatr Felin-fach**
- **Urdd Gobaith Cymru Ceredigion**
- **Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Ceredigion**





**Carwn ddiolch yn fawr iawn i'n holl bartneriaethau am eu cyfraniadau, eu cefnogaeth parod a'u brwdfrydedd wrth fynd i'r afael a pharatoi'r strategaeth hon.**




# Cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion

**Trwy'r post:**
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Dros y ffôn :**
01545 570881
E-bost: cymraeg@ceredigion.gov.uk

Caru·Love
Ceredigion

**www.ceredigion.gov.uk**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# TECLYN ASESU EFFAITH INTEGREDIG (AEI)

## Manylion y Cynnig

| **Teitl y Polisi / Cynnig / Menter** | |
|---|---|
| Ymgynghoriad Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 – 2029 | |
| **Maes Gwasanaeth** | **Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI** |
| Diwylliant a Dysgu Gydol Oes | Carys Lloyd-Jones<br>Swyddog Polisi Iaith<br>Carys.Lloyd-Jones@ceredigion.gov.uk |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | **Cyfarwyddwr Strategol** |
| Elen James | Barry Rees |
| **Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig** | |
| Mae Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg yn gosod sail gadarn i sut fydd Cyngor Sir Ceredigion yn mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal leol. Fe fydd modd hybu'n Strategaeth ymhellach mewn cydweithrediad â sefydliadau partner eraill. Mae datblygu'r Strategaeth yn un o ofynion Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.<br><br>Nod Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Ceredigion yw cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd, ynghyd â dangos ffyrdd ar gyfer grymuso rhwydweithiau cymdeithasol mewn ardal ddwyieithog. Mae Ceredigion yn parhau i fod yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, ond mae cymunedau yn newid, ac mae hyn yn gallu cael dylanwad ar yr iaith a'r diwylliant. Mae ymateb i'r heriau hynny, lliniaru'r risgiau sy'n wynebu'r Gymraeg a sicrhau hyfywedd y gymuned iaith Gymraeg yn golygu cynllunio ieithyddol trwyadl ynghyd â gweithredu arwyddocaol ymhob agwedd o fywyd cymdeithasol ac economaidd y sir.<br><br>Bydd y Strategaeth hefyd yn gosod cyfraniad Ceredigion tuag at gyrraedd Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050, sydd yn gosod y targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.<br><br>Yn ôl Strategaeth y Gymraeg 2050 **"Y brif neges yn y ddogfen hon yw bod angen i ni gyrraedd sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn elfen annatod o bob agwedd ar fywyd bob dydd. Os ydym am wireddu hynny, mae'n rhaid i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r daith – boed yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn siaradwyr Cymraeg sy'n gyndyn i ddefnyddio'r iaith, yn siaradwyr newydd sydd wedi dysgu'r iaith, neu'n bobl nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Mae gan bawb ran i'w chwarae, ac rydym am i bawb gyfrannu at wireddu ein huchelgais."** | |

| **Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol?** AWGRYM |
|---|
| Yn unol â camau gweithredu y strategaeth hon gall effeithio'n uniongyrchol ar;<br><br>***Pawb sy'n breswylwyr yng Ngheredigion**<br>***Blant, Pobl Ifanc a'r Teulu yng Ngheredigion**<br>***Gwasanaethau a'r gweithleoedd sy'n rhan o Sir Ceredigion**<br>***Y Gymuned** |
| **A yw'r rhai y bydd y cynnig yn effeithio arnynt wedi cael cyfle i wneud sylwadau arno?** |
| Mae'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog Sir Ceredigion wedi bod yn rhan amlwg o greu y Strategaeth hon yn dilyn trafodaethau. Mae'r Fforwm wedi ei chreu o aelodau'r cyngor a rhanddeiliaid sy'n cyfrannu ac yn datblygu'r Gymraeg yng Ngheredigion<br><br>Fe fu ymgyrch ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2024. |

## Rheoli Fersiynau

Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei fireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut yr ydym wedi ystyried a chynnwys ystyriaethau o ran datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb lle bynnag y bo modd.

| **Rhif y Fersiwn** | **Awdur** | **Cam yn y broses benderfynu**<br>AWGRYM | **Dyddiad yr Ystyriwyd** | **Disgrifiad o unrhyw newidiadau a wnaed**<br>AWGRYM |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Carys Lloyd-Jones | Pwyllgor Iaith a'r Cabinet (i gymeradwyo'r cynllun drafft cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus) | 10/07/2024 (Pwyllgor Iaith)<br>17/07/2024 (Cabinet) | |
| 2 | Carys Lloyd-Jones | Cabinet i gymeradwyo'r cynllun cyn cyhoeddi'r Strategaeth | 3/12/2024 | Newid geiriad |

## Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor

Pa un o Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor y mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag ef a sut? Cliciwch yma i ddarllen crynodeb o'n Strategaeth Gorfforaethol 2022-27

| | |
|---|---|
| **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** | *Datblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru gwerth £110m<br><br>*Cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn y Sir<br><br>*Creu cyfleoedd gwaith newydd i bobl ifanc medrus cyflogaeth<br><br>*Mynd ar drywydd y Cynllun Datblygu Lleol<br><br>*Cyllid teg o fewn rhaglen Arfor<br><br>*Cefnogi rhieni sy'n gweithio yng Ngheredigion<br><br>*Gwella'r ddarpariaeth sgiliau a chyfleoedd dysgu i bobl 16+ oed<br><br>*Datblygu prentisiaethau yn y Sir ymhellach |
| **Creu cymunedau gofalgar ac iach** | *Hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion<br><br>*Mynd ar drywydd mentrau i hyfforddi a recriwtio staff Gofal Plant a gofal cymdeithasol<br><br>*Annog a galluogi pobl i fod yn gorfforol egnïol fel y gallant elwa ar iechyd a lles cadarnhaol<br><br>*Gwella rôl Cysylltwyr Cymunedol i gefnogi datblygiad cymunedau cydnerth<br><br>*Datblygu a chynyddu nifer y rhaglenni gweithgareddau allgwricwlaidd a gwyliau cyffredinol â ffocws |

| | |
|---|---|
| **Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi i bobl o bob oed ddysgu** | *Cyflwyno'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 i 2032<br><br>*Sicrhau bod disgyblion yn gyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn digwydd Cyfnod Allweddol 2 (blwyddyn 6)<br><br>*Cefnogi Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc<br><br>*Datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder Plant a Phobl Ifanc i wneud ymarfer corff<br><br>*Datblygu sgiliau arwain ein Plant a'n Pobl Ifanc ar y cyfle cyntaf<br><br>*Cefnogi'r ddarpariaeth gofal plant a ariennir ar gyfer pob plentyn dwy oed<br><br>*Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Gorllewin Cymru<br><br>*Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau Theatr Felinfach<br><br>*Darparu cymorth i ysgolion weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru yn llwyddiannus<br><br>*Datblygu Strategaeth Ddiwylliannol a Strategaeth Ddiwylliannol a Strategaeth Tegwch i gefnogi llesiant mewn ysgolion a chymunedau |
| **Creu cymunedau cynaliadwy sy'n fwy gwyrdd ac sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd** | *Gweithio gyda Chymdeithasau Tai i gynyddu ein stoc tai cymdeithasol<br><br>*Byddwn yn parhau i fynd i'r afael a materion ail gartrefi, perchnogaeth tai haf, a throsi cartrefi preswyl i dai gwyliau drwy geisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth o dan y Ddeddf Cynllunio a'r Gwasanaeth Trethi<br><br>*Galluogi mwy o bobl ifanc i adeiladu cartref am oes<br><br>*Annog cadw enwau lleoedd Cymraeg |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Lewyrchus

**Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel lle mae gan bawb waith addas a lle nad oes tlodi**.

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru lewyrchus.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Rwy'n rhagweld sawl effaith cadarnhaol, byddwn yn:<br><br>Rhannu arfer da ymysg busnesau am fanteision dwyieithrwydd, ynghyd â'r buddiannau ynghlwm wrth gynnig gwasanaeth yn Gymraeg.<br><br>Cefnogi amcanion strategol Cynllun, i dreialu dulliau arloesol o hybu entrepreneuriaeth, twf busnes, cydnerthedd cymunedau a'r iaith Gymraeg<br><br>Datblygu llwybr gyrfa ar gyfer ôl 16 ar draws gwasanaethau CSC, gan gynnwys cyfleodd o ran profiad gwaith, gwirfoddoli, hyfforddiant a phrentisiaethau sy'n gwneud defnydd o sgiliau iaith Gymraeg.<br><br>Sicrhau lle y Gymraeg yn rhan o'r Buddsoddiad Bargen Dwf a Tyfu Canolbarth Cymru<br><br>Cefnogi Prosiect Tir Glas Prifysgol Drindod Dewi Sant, ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd busnes cyfrwng Cymraeg.<br><br>Gall yr angen am gyhoeddi dogfennau yn ddwyieithog gael effaith negyddol gan fod angen dwywaith y gwaith a dwywaith y gost er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn enwedig gan fod pawb bron ym medru'r Saesneg. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| *Thema 'Llwyddo' o fewn y Strategaeth Iaith yn mynd i'r afael â Chymru Llewyrchus.<br><br>*Ymrwymiad grantiau ARFOR - Cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyraethau economaidd fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Gydnerth

**Cymdeithas lle mae bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella a lle mae ecosystemau yn iach ac yn gweithredu.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru gydnerth.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**. (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Nid yw'r strategaeth yn cyfrannu at y nod hyn. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Ddim y berthnasol |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Ddim y berthnasol |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru Iachach

**Cymdeithas lle mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.**

Cliciwch yma am wybodaeth am Gymru Iachach.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Rwy'n rhagweld sawl effaith cadarnhaol:<br><br>*Mae medru cysylltu â gwasanaethau yn Gymraeg a derbyn gwasanaethau Cymraeg yn holl bwysig. Wrth allu gwneud hyn fe fydd pobl yn fwy cyffyrddus i gysylltu â gwasanaethau cymorth pan fo'r angen ac yn hyderus wrth allu derbyn y cymorth yn eu mamiaith.<br><br>*Bydd Menter Iaith Cered yn cynnal amrywiaeth o gyfleoedd i bontio siaradwyr Cymraeg newydd â siaradwyr Cymraeg gan gynnwys teithiau cerdded<br><br>* Mae'r strategaeth yn cynnwys y nod i ddatblygu Cynllun Tai Cymunedol, er mwyn helpu pobl i gwrdd â'u hanghenion tai fforddiadwy yn ei cymunedau lleol trwy greu llwybr at berchnogaeth cartref.<br><br>*Byddwn yn gweithio gyda'n prifysgolion lleol gyda'r nod o weld ein sir y dod yn un o'r canolfannau ar gyfer hyfforddiant gofal iechyd yng Nghymru yn ogystal â graddau nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth. |

| |
|---|
| *Bydd y Grŵp Normaleiddio’r Gymraeg yn dadansoddi gwasanaethau a mapio’r ddarpariaeth presennol er mwyn nodi bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes chwaraeon a hamdden, a blaenoriaethau meysydd ar gyfer gwella.<br><br>*Mae’r strategaeth yn nodi cyfleodd i bob plentyn yn y sir ddysgu nofio drwy gyfrwng y Gymraeg gyda’n Gwasanaeth Canolfannau Lles  a’r Gwasanaeth Ieuenctid.<br><br>* Byddwn yn cryfhau ymhellach y ddarpariaeth a’r defnydd o’r Gymraeg o fewn gwasanaeth gofal cymdeithasol er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith defnyddwyr drwy roi’r camau gweithredu a amlinellir yn Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru: ‘Mwy na Geiriau’ ar waith. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu’r farn hon?** |
| **Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg.**<br><br>Adroddiad Sicrwydd 2022-23 (comisiynyddygymraeg.cymru)<br><br>**Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ‘Mwy na Geiriau’**<br><br>Mwy na Geiriau (llyw.cymru) |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu’n well at y Nod Llesiant Cenedlaethol hwn?** |
| Byddwn yn cyflwyno’r Strategaeth Hybu’r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy’n Fwy Cyfartal

**Cymdeithas lle mae gan bawb gyfle cyfartal beth bynnag fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau**.

Mae'r adran hon yn hirach oherwydd gofynnir i chi asesu effaith eich cynnig ar bob grŵp sydd wedi'i ddiogelu gan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

Cliciwch yma am wybodaeth am gydraddoldeb yng Nghymru.

| **Ydych chi’n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc hyd at 18 oed** | Cadarnhaol |
| **Pobl 18-50** | Cadarnhaol |
| **Pobl hŷn 50+** | Cadarnhaol |

| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** |
|---|
| Mae sawl effaith cadarnhaol:<br><br>*Mae nifer o adroddiadau yn dangos fod rhai siaradwyr Cymraeg yn dymuno derbyn eu gwasanaethau yn eu mamiaith. Y nod yw sicrhau y gellir darparu'r hyn, fel bod trigolion y Sir yn medru cael mynediad at eu gwasanaethau yn eu dewis iaith yn ddi-rwystr.<br><br>*Byddwn yn cefnogi gweithgareddau plant a ieuenctid sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â rhannu gwybodaeth am weithgareddau gan fudiadau e.e Urdd Ceredigion, C.Ff.I. Ceredigion, Gwasanaeth Ieuenctid, CERED, Theatr Felinfach a Theatr Arad Goch, Ceredigion Actif.<br><br>*Cynigir gweithgareddau gan Theatr Felinfach i bob oed er mwyn sicrhau dysgu gydol oes e. Tic Toc ar gyfer y plant 2+ oed a Hwyl a Hamdden ar gyfer y 50+<br><br>*Mae Ceredigion Actif, ac hefyd grwpiau Trydydd Sector Ceredigion yn cyfrannu'n helaeth tuag at ieuenctid e.e yr Urdd, CFFI<br><br>*Mae gweithgareddau sy'n darparu'r Gymraeg ar gael i bob oed yng Ngheredigion.<br><br>*Gall hyn, o bosibl gael effaith negyddol os nad yw pobl eisiau siarad Cymraeg. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?** |
| Mae Ceredigion yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, ac yn ôl canlyniad Cyfrifiad 2021;<br><br>• Mae **71.8%** o blant 3-15 oed yn medru siarad Cymraeg yng Ngheredigion<br>• Mae **42.4%** o bobl rhwng 16-64 oed yn medru siarad Cymraeg yng Ngheredigion<br>• Mae **39.9%** o bobl 65+ mlwydd oed yn medru siarad Cymraeg yng Ngheredigion<br><br>*Mae mwy a mwy o gyflogwyr yn awyddus i recriwtio staff sy'n gallu gweithio'n gyfforddus yn y ddwy iaith. Mae dwyieithrwydd yn cryfhau'r galluoedd gwybyddol ac mae pobl ddwyieithog yn tueddu bod yn fwy creadigol a hyblyg.<br><br>*Mae medru newid o un iaith i'r llall yn hyderus yn magu hyder a balchder yn yr unigolyn<br><br>Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)<br><br>Mae Codi'r Bar - Adroddiad Sicrwydd 2022-23 gan Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi barn ar gydymffurfiaeth sefydliadau â'u dyletswyddau iaith.<br>Adroddiad Sicrwydd 2022-23 (comisiynyddygymraeg.cymru) |

| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
|---|
| * Mae medru'r Gymraeg yn rhoi hunaniaeth gadarn ac ymdeimlad o berthyn<br><br>*Wrth i amryw o fudiadau gan gynnwys CFFI, yr Urdd, CERED gynnal gweithgareddau hwylus i hybu ac hyrwyddo Gymraeg y gobaith yw y gellir newid yr agwedd negyddol wrth ymdrochi mewn gweithgareddau Cymraeg a Chymreig .<br><br>*Mae nifer o weithgareddau hamdden a diwylliedig yn cael eu cynnal yn ein sir. Gall rhain fod o ddiddordeb i nifer fawr o'n preswylwyr ni pa bynnag grwp o bobl mae'n nhw'n perthyn iddo. Cynigir nifer o'r gweithgareddau yma gan Theatr Felinfach, CERED a Ceredigion Actif. |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Amhariad ar y clyw** | Dim/Fawr Ddim |
| **Amhariad corfforol** | Dim/Fawr Ddim |
| **Amhariad ar y golwg** | Dim/Fawr Ddim |
| **Anabledd Dysgu** | Dim/Fawr Ddim |
| **Salwch hirdymor** | Dim/Fawr Ddim |
| **Iechyd Meddwl** | Dim/Fawr Ddim |
| **Arall** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae'r Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau' yn darparu tystiolaeth bod modd cael canlyniadau gwell wrth ddarparu gwasanaeth yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth.<br><br>Does dim effaith uniongyrchol ar y grŵp yma, mae'r strategaeth i bawb, fyddwn yn addasu'r gwasanaethau a cynigir fel bod angen er mwyn sicrhau hygyrchedd i bawb. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| *Mae data o gyfrifiad 2021 ar gyfer Ceredigion yn dangos bod 9.4% o'r boblogaeth sydd ag anabledd neu broblem iechyd hirdymor yn gyfyngedig iawn ar eu gweithgarwch o ddydd i ddydd.(21 o Fawrth 2021) | |

| |
|---|
| Mae data o gyfrifiad 2021 ar gyfer Ceredigion yn dangos bod 12.5% o'r boblogaeth sydd ag anabledd neu broblem iechyd hirdymor wedi'u cyfyngu ychydig ar eu gweithgarwch o ddydd i ddydd.(21 o Fawrth 2021).<br><br>*Felly mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o'r grwpiau yma o bobl o fewn Ceredigion<br><br>*Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, (CCS), yn amlinellu sut y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod y camau a gymerwn yn deg i bawb. Mae cael eich trin yn deg a chyda pharch yn berthnasol i bob un ohonom ac i'n teuluoedd a'n ffrindiau. Felly mae'r strategaeth o fudd i bawb yng Ngheredigion. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. |

| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n drawsryweddol?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Menywod Traws** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dynion Traws** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl Anneuaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae'r Strategaeth yn anelu at sicrhau bod gan drigolion Ceredigion ddewis iaith wrth gael mynediad at wasanaethau.<br><br>Fel cyngor Sir rydym ni yn ymwybodol o grwpiau o bobl o fewn ein cymunedau ac mae ein gwasanaethau wedi eu cynllunio ar gyfer pawb.<br><br>Does dim gwahaniaethu o fewn y strategaeth a does dim effaith negyddol na chadarnhaol ar y grŵp penodol yma o bobl. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae 0.6% o boblogaeth Ceredigion yn nodi eu bod yn anneuaidd neu eu bod yn rhywedd sy'n wahanol i'w rhyw a gofrestrwyd adeg genedigaeth. Mae hyn tua 400 o bobl. | |

Felly mae angen sicrhau bod dewis iaith i gael i bawb o fewn Ceredigion wrth gael mynediad i wasanaethau.

*Welsh language: Non-binary speakers want gender-neutral help - BBC News

*Un o camau gweithredu Cynllun LHDTC+ Llywodraeth Cymru yw i: Sicrhau bod gwasanaethau cymorth Cymraeg ar gael i siaradwyr Cymraeg LHDTC+.

Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru: themâu, tystiolaeth a chamau gweithredu [HTML] | LLYW.CYMRU

**Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?**

Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd.

**Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol?** (Cliciwch yma am wybodaeth)

| | |
|---|---|
| **Pobl Ddeurywiol** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dynion hoyw** | Dim/Fawr Ddim |
| **Menywod hoyw / lesbiaid** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl Heterorywiol** | Dim/Fawr Ddim |

**Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol**

*Mae'r Strategaeth yn anelu at sicrhau bod gan drigolion Ceredigion ddewis iaith wrth gael mynediad at wasanaethau.

*Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cryfhau eich hawliau i beidio â chael rhywun yn gwahaniaethu yn eich erbyn. Ystyr gwahaniaethu yw trin rhywun yn waeth na phobl eraill oherwydd eu bod yn wahanol. Mae'r grwpiau hynny o bobl y mae hawl ganddynt i beidio â chael pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn wedi'u hymestyn hefyd. Mae gan y bobl sy'n perthyn i'r grwpiau hyn yr hyn a elwir yn nodweddion gwarchodedig.

**Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?**

* Mae 4.8% o drigolion Ceredigion yn nodi eu bod yn LHDTC+. Does dim effaith cadarnhaol na negyddol i'r grŵp yma o bobl.

| |
|---|
| *Mae angen i ni ystyried a yw'r gwasanaethau a ddarperir yn gynhwysol ar gyfer pawb. Felly mae angen sicrhau bod dewis iaith i gael i bawb o fewn Ceredigion wrth gael mynediad i wasanaethau. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. |

| **Ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Pobl sy'n briod** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl mewn partneriaeth sifil** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae angen sicrhau bod dewis iaith i gael i bawb o fewn Ceredigion wrth gael mynediad i wasanaethau.<br><br>Mae'n anodd gweld sut y bydd y cynnig yn effeithio'n negyddol neu'n gadarnhaol ar unrhyw un beth bynnag yw eu statws priodasol. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| *Does dim effaith uniongyrchol ar y grŵp yma o bobl | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. | |

| **A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Beichiogrwydd** | Cadarnhaol |
| **Mamolaeth** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae'r Strategaeth Iaith yn ceisio mynd i'r afael bod rhieni newydd yn gwneud y dewis iaith o'r crud. At hyn mae nifer o wasanaethau ar draws y Sir yn rhoi cynlluniau yn eu lle er mwyn ceisio sicrhau bod rhiant newydd yn derbyn eu gwasanaeth yn eu dewis iaith (Dechrau'n Deg, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Gwasanaeth Gofal Plant, Cered) . | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Byddwn yn:<br><br>*Darparu gwybodaeth a chyngor uniongyrchol i rieni ynghylch gwerth y Gymraeg a'r gefnogaeth sydd ar gael o'r crud.<br><br>*Dosbarthu'r lyfryn gwybodaeth 'Byw a Bod' a 'Cymraeg i Rieni' yn eang. Ail-gyhoeddi'r llyfryn gwybodaeth 'Byw a Bod' a diweddaru fideo 'Byw a Bod'.<br><br>*Cefnogi CWLWM a'r Uned Gofal Plant i gynnal darpariaeth gofal plant: Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin a Grwpiau Chwarae er mwyn cefnogi rhieni a phlant i ddechrau'r daith o addysg cyfrwng Cymraeg trwy'r dull trochi. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?** | |
| Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. | |

| **A ydych yn meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu tarddiad ethnig?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
|---|---|
| **Asiaidd / Asiaidd Prydeinig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Grwpiau Ethnig Cymysg/ Aml-ethnig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Gwyn** | Dim/Fawr Ddim |

| | |
|---|---|
| **Grwpiau ethnig eraill** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Does dim gwahaniaethu yn erbyn bobl oherwydd eu tarddiad ethnig. Mae Cyfrifiad 2021 yn dweud wrthym bod 3.7% o bobl yng Ngheredigion yn rhan o'r tarddiad ethnig ganlynol:<br>• Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: 1.5%<br>• Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd: 0.5%<br>• Cymysg neu Grwpiau Aml-ethnig: 1.2%<br>• Grwpiau ethnig eraill: 0.5%<br><br>Felly mae angen sicrhau bod dewis iaith i gael i bawb o fewn Ceredigion wrth gael mynediad i wasanaethau. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae cydraddoldeb wrth galon popeth a wneir gan Cyngor Sir Ceredigion. Mae cydraddoldeb yn golygu deall a mynd i'r afael â'r rhwystrau fel bod pawb yn cael cyfle teg i gyflawni eu potensial. Rydym yn ymrwymo i drin pob dinesydd â pharch, ac i ddarparu gwasanaethau a chynnig cyfleoedd cyflogaeth sydd yn ymatebol i anghenion amrywiol pobl. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Bwdhaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Cristion** | Dim/Fawr Ddim |
| **Hindŵaidd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Dyneiddiwr** | Dim/Fawr Ddim |

| | |
|---|---|
| **Iddewig** | Dim/Fawr Ddim |
| **Mwslim** | Dim/Fawr Ddim |
| **Sikh** | Dim/Fawr Ddim |
| **Pobl heb gred** | Dim/Fawr Ddim |
| **Eraill** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw effaith wahaniaethol ddisgwyliedig. Bydd unrhyw gredoau, traddodiadau neu arferion yn cael eu parchu. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae mwyafrif trigolion yn dweud eu bod nhw'n Cristion neu nad oes ganddyn nhw ddim crefydd.<br><br>Yng Ngheredigion cofnodir bod;<br>46.9% - Cristion<br>42.8% - Dim crefydd<br>7.7% - Heb ateb<br>a 2.6% - Crefydd arall.<br><br>Rydym ni fel Cyngor Sir yn ymwybodol o'r amrywiaeth o grefyddau sydd yng Ngheredigion. | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** | |
| Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. | |

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion neu fenywod?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Dynion** | Dim/Fawr Ddim |
| **Menywod** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae angen sicrhau bod dewis iaith i gael i bawb o fewn Ceredigion wrth gael mynediad i wasanaethau. | |

| |
|---|
| Does fawr ddim o effaith yma. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Dim yn perthnasol |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. |

| | |
|---|---|
| **A ydych yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog?** (Cliciwch yma am wybodaeth) | |
| **Aelodau o'r Lluoedd Arfog** | Dim/Fawr Ddim |
| **Cyn-filwyr** | Dim/Fawr Ddim |
| **Gwŷr/gwragedd** | Dim/Fawr Ddim |
| **Plant** | Dim/Fawr Ddim |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae'r Cyngor yn gweithio tuag y cynnig rhagweithiol, lle bydd trigolion yn cael cynnig eu gwasanaethau yn eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg). | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | |
| Mae'r Strategaeth Iaith ar gyfer pob preswyliwr yng Ngheredigion | |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?** | |
| Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. | |

## Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o'i gymharu ag eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim cyfoeth cronedig, sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Mae cefndir teuluol neu lle mae person yn cael ei eni yn dal i effeithio ar ei fywyd. Er enghraifft, mae plentyn o deulu cyfoethog yn aml yn gwneud yn well yn yr ysgol na phlentyn o deulu tlawd, hyd yn oed os yw'r plentyn tlotach yn fwy naturiol academaidd. Gelwir hyn weithiau yn anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

| | |
|---|---|
| **Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol** | |
| Mae sawl effaith cadarnhaol:<br><br>*Byddwn yn hyrwyddo prosiect 'Cymraeg i Blant' i rieni Cymraeg a di-Gymraeg, a chefnogi'r prosiect  er mwyn annog trosglwyddiad iaith o fewn yr aelwyd. Gwersi Cymraeg **am ddim** i rieni Cylch Aberystwyth ac Ysgolion T2 (yn ddibynnol ar grantiau).<br><br>*Byddwn yn annog arweinwyr clybiau cymdeithasol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg gan ddylanwadu yn gadarnhaol ar ddefnydd iaith plant a phobl ifanc; yn cynnwys y Gwasanaeth Canolfannau Lles  a'r Gwasanaeth Ieuenctid.<br><br>*Mae nifer fawr o weithgareddau sy'n hybu a hyrwyddo Gymraeg ar gael am ddim ond gall fod effaith negyddol pan fydd yn ofynnol i dalu am weithgareddau Cymreig.<br><br>*Ceir defnydd o grantiau hefyd sydd ar gael i hybu'r Gymraeg ymysg pobl ifanc. | |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?** | |
| *Byddwn yn cefnogi Gorymdeithiau Dydd Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth, Llambed; Aberteifi, Tregaron ac annog dathliadau tebyg mewn ardaloedd eraill. e.e Llandysul<br><br>*Byddwn yn cefnogi gweithgareddau plant a ieuenctid sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â rhannu gwybodaeth am weithgareddau gan fudiadau e.e Urdd Ceredigion, C.Ff.I. Ceredigion, Gwasanaeth Ieuenctid, CERED, Theatr Felinfach a Theatr Arad Goch, Ceredigion Actif.<br><br>*Mae cynigion gweithgareddau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg am ddim ar gael ond mae rhai eraill yn costio. | |

| |
|---|
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**<br><br>**A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?** |
| Byddwn yn cadw mewn ystyriaeth y ffaith bod rhai pobl methu fforddio digwyddiadau a gweithgareddau lle mae tâl mynediad ac yn gwneud yr hyn y gallwn i sicrhau eu bod nhw'n gallu mynychu. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru o Gymunedau Cydlynus

**Cymdeithas gyda chymunedau deniadol, hyfyw, diogel, sydd â chysylltiadau da**

Cliciwch yma i weld gwybodaeth am gymunedau cydlynus.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. AWGRYM** |
| Mae sawl effaith cadarnhaol yn cynnwys :<br><br>*Mae nifer fawr o weithgareddau yn cael eu trefnu yn ein cymunedau. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau cymunedau wedi eu trefnu gan CERED, CFFI a'r Urdd. Mae gweithgareddau o fewn ein cymunedau.<br><br>*Mae'r ffaith fod nifer o'r gweithgareddau yma yn cael eu cynnal o fewn ein cymunedau yn sicrhau cymunedau diogel a bodlon ac yn cyfrannu at gyfleusterau da ein cymunedau.<br><br>*Fe fydd sesiynau hwyl a hamdden ar gyfer oedolion 50+ ac hefyd sesiynau i Tic Toc i blant 2+ oed a'i rhieni ar gael yn Theatr Felinfach – gall hyn gael effaith gadarnhaol ar bobl unig o fewn ein cymunedau.<br><br>*Byddwn yn parhau i ddarparu a datblygu cefnogaeth dechnolegol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg h.y. pecyn Cysgliad, apiau / geiriaduron. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| Strategaeth Y Gymraeg 2050 Llywodraeth Cymru<br>Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (llyw.cymru)<br><br>datganiad-polisi-iaith-gymraeg-cyngor-sir-ceredigion.pdf |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |

Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd.

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden**.

Cliciwch yma i ddarllen gwybodaeth am ddiwylliant a'r iaith Gymraeg

| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** |
|---|
| *Mae'r Strategaeth Iaith ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>*Prif bwrpas y Strategaeth yw cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws y Sir.<br><br>*Yn unol â gweithredu Strategaeth Iaith Ceredigion, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael o'r un ansawdd ac argaeledd a gwasanaethau cyfatebol yn Saesneg.<br><br>*Mae'r Iaith Gymraeg yn rhan allweddol o ddiwylliant a threftadaeth Ceredigion, ac felly mae'r Strategaeth yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg o fewn y Sir. Wrth ymgymryd a datblygu'r camau gweithredu o fewn y Strategaeth mae hyn yn rhoi cyfle i bawb yng Ngheredigion pa bynnag oed i gymryd rhan yn y celfyddydau chwaraeon a hamdden yn ei mamiaith.<br><br>*Cefnogi gweithrediad blaenoriaethau CSGA wrth ddatblygu'r 7 deilliant - gan gynnwys dysgu pob disgybl yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg tan 7 oed a chyfrannu at weledigaeth Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.<br><br>*CSGA - Erbyn mis Medi 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion yw y bydd pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y bydd yn saith oed. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| *Gweithgareddau Cered<br><br>*Er mwyn gwireddu'r weledigaeth rydym wedi gosod 4 thema strategol ar gyfer y Strategaeth hon, ac iddynt nifer sylweddol o feysydd gwaith cysylltiol. Mae Ceredigion yn fan lle mae modd dysgu, byw, perthyn a llwyddo drwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>*Cynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu a derbyn |

| |
|---|
| gwasanaethau cyhoeddus<br><br>*Safonau'r Gymraeg<br>Safonau'r Gymraeg \| Cerinet (ceredigion.gov.uk)<br><br>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2023 (ceredigion.gov.uk) |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?** |
| Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. |
| **Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** (Cliciwch yma am wybodaeth) |
| Prif nod y strategaeth hon yw i hybu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

## Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Cymdeithas sy'n ystyried sut y gallai ein gweithredoedd effeithio ar wledydd a phobl eraill ledled y byd.**

Cliciwch yma i ddarllen am gyfrifoldeb byd-eang.

| |
|---|
| **Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.** **AWGRYM** |
| *Byddwn yn cefnogi cais Aberystwyth i ddod yn Ddinas Llenyddiaeth UNESCO. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** |
| UNESCO : Building Peace through Education, Science and Culture, communication and information<br><br>UNESCO - Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig. Mae'n cyfrannu at heddwch a diogelwch trwy hyrwyddo cydweithrediad rhyngwladol mewn addysg, y gwyddorau, diwylliant, cyfathrebu a gwybodaeth. |
| **Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?** |
| Byddwn yn cyflwyno'r Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024 - 2029 ac yn monitro cynnydd yn gyson er mwyn mesur llwyddiant ac effeithiolrwydd. |

## Cryfhau'r Cynnig

Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol yn yr adrannau uchod, rhowch fanylion am unrhyw newidiadau a chamau gweithredu ymarferol a allai helpu i ddileu neu leihau'r effeithiau negyddol.

| Beth fyddwch chi'n ei wneud? | Pryd? | Pwy sy'n gyfrifol? | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Gall yr angen am gyhoeddi dogfennau yn ddwyieithog gael effaith negyddol gan fod angen dwywaith y gwaith a dwywaith y gost er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn enwedig gan fod pawb bron ym medru'r Saesneg.** | | | |
| Bydd Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg yn cael ei fonitro yn gyson ac fe fydd adroddiad yn cael ei greu yn flynyddol. | Haf 2025 | Swyddog Polisi Iaith ac aelodau'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog | Blwyddyn Gyntaf |
| **Gall hyn, o bosibl gael effaith negyddol os nad yw pobl eisiau siarad Cymraeg.** | | | |
| Bydd Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg yn cael ei fonitro yn gyson ac fe fydd adroddiad yn cael ei greu yn flynyddol. | Haf 2025 | Swyddog Polisi Iaith ac aelodau'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog | Blwyddyn Gyntaf |

| **Os na chymerir camau i ddileu neu liniaru effeithiau negyddol, a fyddech cystal â chyfiawnhau pam.** *(Os ydych wedi nodi unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon yna mae'n rhaid newid neu ddiwygio'r cynnig.)* |
|---|
| |
| **Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?** |
| Mae'r Fforwm Dyfodol Dwyieithog sy'n cynnwys cynrychiolaeth o adrannau Cyngor Sir Ceredigion â'i holl bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn gyfrifol am ddatblygu, monitro ac adolygu'r Strategaeth hon.<br><br>Mae'r fforwm yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac yn darparu adroddiadau cynnydd blynyddol i Bwyllgor Iaith y Cyngor ac i'r Cabinet. Bydd adroddiadau cynnydd blynyddol ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor. Gellir gofyn am gopïau papur os oes angen. |

## Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: 5 Ffordd o Weithio

Disgrifiwch isod sut rydych wedi gweithredu'r pum ffordd o weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

| | |
|---|---|
| **Hirdymor** | Mae'r Strategaeth yma yn gynllun 5 mlynedd 2024-2029 .Y weledigaeth tymor hir yw cyfrannu at |

| | |
|---|---|
| Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol<br><br>AWGRYM | Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru sef miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru<br>Y Gymraeg \| Pwnc \| LLYW.CYMRU<br><br>Gweithredu Safonau'r Gymraeg ac adolygu cynllun gweithredu Strategaeth Iaith Ceredigion yn flynyddol.<br>Safonau'r Gymraeg \| Cerinet (ceredigion.gov.uk) |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau<br><br>AWGRYM | Mae'r Cyngor wedi cydweithio gyda sefydliadau partner, sy'n rhan o Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion, er mwyn datblygu ac yna gweithredu'r Strategaeth hon.<br><br>Cysylltwyd a trafodwyd gyda holl bartneriaid y Fforwm yn gyson er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu yn fesuriadwy ac yn effeithiol ar gyfer y bum mlynedd nesaf. |
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â buddiant a gofyn am eu barn<br><br>AWGRYM | Yn ogystal ag ymgynghori gydag aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Gorffennaf a Medi 2024.<br><br>Fe fydd y cyhoeddiadau am yr ymgynghoriad yn cael eu lledaenu yn eang gan gynnwys mewn lleoliadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol ac hefyd ar wefan y sir<br><br>Dilynwch y ddolen i weld dogfennau ymgynghori / papur ymateb<br>http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgynghoriadau/ |
| **Atal**<br>Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu<br><br>AWGRYM | Yn ôl Cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad o 2% yn nifer siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion h.y yn 2011 cofnodwyd 47.3% o siaradwyr Cymraeg yn 3 oed neu'n hŷn yng Ngheredigion ac erbyn 2021 roedd y ffigwr wedi cwympo i 45.3% Mae Cyngor Sir yn cydnabod y cwymp yma ac wedi ymrwymo i i fod yn rhagweithiol er mwyn atal unrhyw ddirywiad pellach yn sefyllfa'r iaith erbyn y Cyfrifiad nesaf. Gwneir hyn drwy weithredu Safonau'r Gymraeg a chyflawni Strategaeth Hybu'r Iaith o fewn y Sir. Nod y Strategaeth Iaith yw i chynnal ac hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd posib ar fywyd<br><br>Dogfennau ar dudalen Gymraeg gwefan y Cyngor |

| | |
|---|---|
| | • Proffil Iaith Ceredigion<br>• Safonau'r Gymraeg Ceredigion |
| **Integreiddio**<br>Ystyried effaith eich cynnig ar bedwar piler llesiant (cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a'r amgylchedd), amcanion cyrff cyhoeddus eraill ac ar draws meysydd gwasanaeth yn y Cyngor.<br><br>AWGRYM | Mae'r Iaith Gymraeg yn rhan allweddol o ddiwylliant a threftadaeth Ceredigion, ac felly mae'r polisi yn cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg o fewn y Sir<br><br>Dogfennau ar dudalen Gymraeg gwefan y Cyngor |

## Risg

Crynhowch y risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu effaith | Isel iawn | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn |
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | Annhebygol o ddigwydd | Llai tebygol o ddigwydd | Yr un mor debygol o ddigwydd ag o beidio digwydd | Mwy tebygol o ddigwydd | Tebygol o ddigwydd |

| **Disgrifiad o'r risg** | **Effaith** (difrifoldeb**)** | **Tebygolrwydd** (y gallu i gyflawni) | **Sgôr** (Effaith x Tebygolrwydd) |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir yn methu a chyflawni gofynion statudol Safonau'r Gymraeg a peryg o dderbyn dirwy gan Gomisiynydd y Gymraeg am fethu a sicrhau bod trigolion Ceredigion yn medru cael mynediad i wasanaethau cyfrwng Cymraeg. | 2 | 3 | 6 |
| Diffyg capasiti gan sefydliadau partner sy'n rhan o Fforwm Dyfodol Dwyieithog i fedru gweithredu'r gofynion yn llawn. | 2 | 3 | 6 |

## Cymeradwyo

| Swydd | Enw | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Rheolwr Corfforaethol** | Non Davies |  | 08/07/2024 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol** | Elen James |  | 04/07/2024 |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol** | Barry Rees |  | 03/07/2024 |
| **Deiliad y Portffolio** | Catrin M.S Davies<br>Aelod CABINET dros y Gymraeg a Diwylliant |  | 10/07/2024 |